tafod elái

www.tafelai.com

Nadolig 2005 **Pris 60c** **Rhif 203**

Addysg Gymraeg yn aros yn yr unfan

Yr Arglwydd Gwilym Prys Davies, Heini Gruffudd a Gerald Latter

Mae'r ysbryd arloesol yn diflannu yn ôl Heini Gruffudd, cyn-gadeirydd Rhieni dros Addysg Gymraeg mewn araith yng nghinio Gronfa Glyndŵr yr Ysgolion Cymraeg yng Nghlwb Golff Radur nos Sadwrn, 12 Tachwedd. Dywedodd "Mae addysg Gymraeg yn pedlo yn wyllt i aros yn yr unfan. Mae'r nifer sy'n mynd i ysgolion cynradd Cymraeg wedi aros bron yr un fath gyda niferoedd yn codi o 49,000 15 mlynedd yn ôl i 51,000 erbyn heddiw."

"Dydy cynlluniau addysg Gymraeg Bwrdd yr Iaith Gymraeg ddim wedi dwyn ffrwyth, a does dim sôn am ddatblygu addysg Gymraeg yn nogfen Iaith Pawb y Cynulliad."

"Yn yr ysgolion cyfun Cymraeg mae problemau pellach a dim ond mewn enghreifftiau prin iawn y clywir disgyblion yn siarad Cymraeg ar y buarth ac mae'r dylanwadau Eingl-Americanaidd yn orchfygol".

Cynigiodd Heini Gruffudd pedwar pwynt i ymateb i'r argyfwng a'r her o alluogi 50% o bobl i siarad Cymraeg erbyn 2050.

Yn gyntaf dywedodd fod angen ehangu maes Cymraeg i Oedolion yn sylweddol. Yng Ngwlad y Basg mae'r llywodraeth yn buddsoddi £30m yn y maes hwn ac wedi sefydlu 150 o Ganolfannau Iaith gan sicrhau fod pobl sy'n dysgu'r iaith yn cael 1500 awr i ddod yn rhugl.

Yn ail mae angen cynyddu'r nifer o ysgolion Cymraeg. "Mae sefydlu ysgol Gymraeg newydd yn broses sy'n gallu cymryd 7 mlynedd ac mae'n rhaid edrych ar ffyrdd newydd i ehangu yn gyflym". "Yr hyn sydd ei angen yw sicrhau ble bynnag mae 4 neu 5 ysgol gynradd Saesneg fod un yn troi yn Gymraeg mewn cyfnod byr iawn."

Parhad ar dudalen 3 >>

Cymraes y Flwyddyn

Llongyfarchiadau i Margaret Pritchard, Efail Isaf, ar ennill gwobr Cymraes yn y Gymuned yn seremoni wobrwyo Cymraes y Flwydyn 2005 y Western Mail. Mae Margaret yn Brif-weithredwr Hospis Gofal George Thomas sy'n rhoi gofal i ddioddefwyr canser ac afiechydon eraill yng Nghaerdydd a'r fro. Darperir gofal i gleifion a'u teuluoedd yn rhad ac am ddim ac agorwyd hospis Tŷ George Thomas ym mis Gorffennaf eleni.

Llwyddiant yn yr Ŵyl Gerdd Dant

Gavin Ashcroft a Menna Thomas enillodd y wobr gyntaf am y Ddeuawd Cerdd Dant yn Abergwaun yn ystod yr Ŵyl Gerdd Dant eleni. Fe'i gwelir yn dal y ddau dlws - sef cwpan Dewi Mai o Feirion ac un o dlysau'r Wyl am eu camp yn canu gosodiad o eiriau "Rhwng Mor a Mynydd" ar y gainc Marial Gwyn. Nid dyma'r tro cynta i'r ddau gipio gwobr Genedlaethol ar y ddeuawd gyda'i gilydd - ac y mae Gavin, sydd ei hunan yn athro bellach, yn un o gyn-ddisgyblion Menna yn Ysgol Rhydfelen.

Roedd Dawnswyr Nantgarw a Pharti'r Efail o'r ardal hefyd yn llwyddiannus yn yr Ŵyl Gerdd Dant.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl gyfranwyr a darllenwyr Tafod Elái

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 029 20842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 3 Chwefror 2006
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
25 Ionawr 2006

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net
e-bost
pentyrch@tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Uned 27, Ystad
Ddiwydiannol
Mynachlog Nedd
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

Angen: gwirfoddolwyr i ddarllen llyfrau Cymraeg ar dâp.

Oes ganddoch chi ryw awr i sbario yn ystod y dydd? Os oes, a hoffech chi wirfoddoli? Ffoniwch 029 2044 9563 neu e-bostiwch cymraeg@rnib.org.uk

CYLCH CADWGAN

Jerry Hunter yn siarad ar y testun :
'Rhyfel Cartref America a Llenyddiaeth Gymraeg'

yn Ysgol Gynradd Creigiau
Nos Wener 3 Chwefror
am 8.00pm.

MERCHED Y WAWR

Cangen y Garth

Tŷ Tredegar
Gwin a Mins Peis
15 Rhagfyr

Danny Grehan
'Aromatherapi'
11 Ionawr
yn Neuadd Pentyrch
Am ragor o fanylion, ffoniwch:
Ros Evans, Ysgrifennydd
029 20899246

Cyngerdd Nadolig Côr Gode'r Garth

7.30 Nos Sul,
18 Rhagfyr

Capel Tabernacl,
Efail Isaf

Tocynnau:
029 20890770

CLWB Y DWRLYN

Canu Carolau
o Neuadd Pentyrch
7pm Nos Fawrth 20 Rhagfyr

Swper Nadolig
8pm Nos Wener 23 Rhagfyr

Panto
yn
Neuadd y Pentref
Pentyrch
8pm Nos Wener
6 Ionawr 2006

Twmpath Santes Dwynwen
gyda Jac y Do
8pm 27 Ionawr
yn Neuadd Pentyrch

Ffoniwch 029 20890571
am wybodaeth bellach

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant

Dawns gyda Caryl
Canolfan Hamdden
Llantrisant
Nos Wener, 27 Ionawr 2006

Ffôn: 01443 218077

www.cwlwm.com
Gwybodaeth am holl weithgareddau Cymraeg yr ardal.

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Myfyrwyr
Croeso i Frances Williams a Ruth Hickin o Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd sy'n fyfyrwyr gyda ni ar hyn o bryd. Hefyd i Lucie Breeze a Bethan Williams sydd ar brofiad gwaith o Goleg Penybont. Bu dau ddisgybl o Ysgol Gyfun Llanhari gyda ni hefyd am wythnos, sef Leah O'Donohue a Tara Wiseman. Diolch iddynt i gyd am eu cymorth gyda'r plant.

Helfa Drysor
Trefnwyd Helfa Drysor gan y Gymdeithas Rieni ar brynhawn Sul y nawfed o Hydref. Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Tudor a Dafydd, Oaklands am ddod yn gyntaf, a diolch yn fawr iawn i Mrs Helen Phillips am drefnu.

Ymweld â Llanhari
Bu disgyblion Blwyddyn Chwech ar ymweliad ag Ysgol Gyfun Llanhari ar yr unfed ar ddeg o Hydref, er mwyn cymryd rhan mewn "Diwrnod Technoleg". Bydd eu cynnyrch ar werth yn y Ffair Nadolig a gynhelir ar yr ail o Ragfyr. Yna ar y pymthegfed o Dachwedd roedd cyfle i'r rhieni a'r plant gwrdd ag aelodau o staff Llanhari pan ddaethon nhw atom ni i'r ysgol.

Diwrnod Mathemateg
Cafodd nifer o blant gyfle i chwarae gêmau mathemateg newydd mewn diwrnod o hwyl a drefnwyd gan Mrs Hulse ar yr unfed ar ddeg o Hydref. Roedd y disgyblion wrth eu bodd yn mwynhau ac yn dysgu ar yr un pryd.

"Joshua Foundation"
Bu cyn-ddisgybl o'r ysgol, sef Catrin Evans, sydd nawr yn Ysgol Gyfun Llanhari yn ymweld â ni'n ddiweddar i sôn am y "Joshua Foundation" sef elusen i helpu plant sy'n dioddef o gancr. Llwyddodd y disgyblion i godi £240, sydd i'w rannu rhwng y "Joshua Foundation" a'r rhai a ddioddefodd yn ystod y daeargryn yn Ne Asia.

Elusennau eraill
Llwyddwyd i gasglu 70 o focsys esgidiau'n llawn o anrhegion Nadolig a fydd yn cael eu hanfon i Zambia, ac ar ddiwrnod Plant Mewn Angen, codwyd bron i £200.

PC Siân Jones
Daeth PC Jones i'r ysgol ar y pedwerydd ar ddeg o Hydref i drafod nifer o bynciau pwysig gyda'r plant. Bu'n sgwrsio am "Ddrwg neu Dda" gyda disgyblion Blynyddoedd 2 a 3, ac am "Gamdrin Sylweddau" gyda Blynyddoedd 4,5 a 6.

Jamborî
Cafodd plant yr Adran Iau fore hwyliog iawn yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant yn ddiweddar, pan fuont yn cymryd rhan yn Jamborî'r Urdd. Braf oedd gweld ambell i seren, fel Christopher, Sophie a Ryan yn helpu Martyn Geraint ar y llwyfan.

Triawd Telynau
Bu Heti Edge, Rhian Hughes a Sophie Nicholls, ynghyd â'u hyfforddwraig, Mrs Lowri Phillips yn perfformio yn agoriad swyddogol yr Hen Ysgol, Llantrisant fel Canolfan Gerdd. Buont yn cymryd rhan mewn cyfweliadau ar ran y Gwasanaeth Cerdd ac yn fuan ar ôl hanner tymor, mi fyddant yn diddanu penaethiaid cyn eu cynhadledd. Llongyfarchiadau i'r pedair ohonynt.

Hyfforddiant chwaraeon
Mae Blynyddoedd 4 a 5 ar hyn o bryd yn derbyn hyfforddiant rygbi gan Gleision Caerdydd, a Blwyddyn 6 yn derbyn hyfforddiant pêl-droed gan Yr Adar Gleision.

Gweithdy Gwyddoniaeth
Cafodd plant yr Adran Iau gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy gwyddoniaeth trwy "ebp-XL Cymru" yn ddiweddar. Diolch i Mrs Rhian Carbiss am ddod â gwyddoniaeth yn fyw i'r plant.

Ymweliadau addysgol
Fel rhan o'u gwaith ar Oes Fictoria, bu disgyblion Blwyddyn 5 ar ymweliad â'r Pwll Mawr ym Mlaenafon yn ddiweddar. Ac ar y 23ain o Dachwedd tro Blynyddoedd 1 a 2 oedd hi i alw draw yn Llancaiach Fawr, er mwyn gael blas ar fywyd yn ystod Oes y Tuduriaid a'r Stiwartiaid.

Arddangosfa Gelf
Ar brynhawn Mawrth yr 22ain o Dachwedd, cynhaliwyd arddangosfa o waith celf pob disgybl yn yr ysgol. Roedd cyfle i'r rhieni alw draw i brynu'r gwaith a oedd wedi'i osod yn broffesiynol iawn, mewn fframiau hyfryd.

Addysg Gymraeg
Parhad o dudalen 1

"Mae'n rhaid hefyd edrych ar y sector addysg Saesneg ac ar y camau sy'n digwydd yno i ddysgu Cymraeg. A dyma oedd ei drydydd pwynt. Dywedodd bod rhai enghreifftiau ardderchog, megis yn Nhreorci, ond bod rhaid sicrhau nad ydym yn camarwain pobl oherwydd y nod yw sicrhau bod y plant yn rhugl yn y Gymraeg. "Ni allwn gael dwy safon iaith a rhai yn mesur yn ôl safonau ail-iaith. Rhaid i bawb gael deall pa safon maent wedi cyrraedd yn y gallu o siarad a defnyddio'r iaith."

Yn bedwerydd pwynt, dywedodd bod angen sicrhau gwell dilyniant o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd Cymraeg yn arbennig yn yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Mae nifer sylweddol o blant yn cael eu colli wrth drosglwyddo o addysg gynradd Cymraeg i addysg uwchradd. Mae'r ganran sydd ddim yn mynd i ysgolion cyfun Cymraeg gymaint â 48% yn sir Conwy , 41% yng Ngheredigion a 31% yng Nghaerfyrddin. "Mae'r gwaedlif hwn yn sylweddol ac yn un gellir ei atal. Mae angen llawer o weledigaeth ac arweiniad gan brifathrawon i sicrhau bod pob pwnc yn cael ei ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg."

"Addysg yw'r un maes lle mae gennym yng Nghymru ymreolaeth lwyr" dywedodd i gloi. "Rhaid i ni gael Polisi Cenedlaethol i roi arweiniad clir i'r awdurdodau lleol neu aros yn yr unfan y byddwn ni."

Roedd dros naw deg o bobl wedi dod i ginio Cronfa Glyndwr sy'n cefnogi datblygu addysg Gymraeg. Cadeiriwyd y noson gan Gerald Latter, Llandaf, a rhoddwyd y diolchiadau gan Wyn Rees, Pentyrch.

Ysgol Gymraeg Castellau

Parti'r Urdd
Cynhelir parti i aelodau Urdd yr ysgol ar Ddydd Mawrth, 29 Tachwedd. Bydd gemau a disgo yn neuadd yr ysgol o dan ofal yr athrawon.

Ffair Nadolig
Cynhelir ffair Nadolig yr ysgol ar Ddydd Iau, 1 Rhagfyr am 3.30 yn neuadd yr ysgol. Croeso i bawb.

Ymweliad
Bydd y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn ymweld ag ogof Siôn Corn yn y Parc Treftadaeth yn y Rhondda ar Ddydd Gwener, 2 Rhagfyr. Mae'r plant bach yn gyffrous yn barod.

Ffair Lyfrau
Bydd Ffair Lyfrau Saesneg yn yr ysgol am wythnos eleni ac yn cyrraedd ar Ddydd Gwener, Rhagfyr yr ail. Cyfle da i ddechrau ar y siopa Nadolig.

Cyngherddau
Cynhelir cyngherddau Nadolig yr ysgol yn y neuadd ar Ddydd Mawrth, 6 Rhagfyr a dydd Mercher, 7 Rhagfyr. Mae'r plant yn brysur yn paratoi ar gyfer y perfformiadau.

Côr yr ysgol
Bydd côr yr ysgol yn brysur iawn dros yr wythnosau nesaf. Cafwyd gwahoddiad i ganu carolau yng nghanolfan Maes Trisant yn Llantrisant ar Ddydd Gwener, 9 Rhagfyr. Hefyd bydd y côr yn canu yn yr Eglwys yn Llantrisant fel rhan o ddathliadau ,'Gŵyl Coed Nadolig yr Eglwys'.

Rygbi
Ar brynhawn dydd Gwener, 18 Tachwedd, chwaraeodd tîm rygbi'r ysgol yn erbyn tîm rygbi Ysgol Gymraeg Pontsionorton. Roedd yn gyfle gwych i nifer o blant gynrychioli'r ysgol am y tro cyntaf. Cafwyd llawer o hwyl er colli mai bu'r hanes i'r ysgol y tro hwn. Dalier ati, Castellau.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Loreen Williams

LLWYDDIANT YN YR ŴYL GERDD DANT
Llongyfarchiadau gwresog i aelodau Parti'r Efail ar eu llwyddiant ysgubol yn y Gystadleuaeth i Gôr neu Barti Gwerin yn yr Ŵyl Gerdd Dant yn Abergwaun. Fe ddaeth y parti i'r brig eleni eto mewn cystadleuaeth o safon uchel. Llongyfarchiadau hefyd i Menna nid yn unig am arwain y parti i fuddugoliaeth ond am ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth deuawd Cerdd Dant gyda Gavin Ashcroft, un o aelodau'r Parti. Gyda llaw enwyd deuawd Menna a Gavin fel un o uchafbwyntiau'r Ŵyl gan Aled Lloyd Davies a oedd yn sylwebu ar y Radio ar y noson.

SWYDD NEWYDD.
Llongyfarchiadau i Maldwyn Pate, ar ei benodiad i Adran y Dyniaethau yng Ngholeg Prifysgol Morgannwg yn Nhrefforest. Fe ddechreuodd Maldwyn ar ei swydd newydd ar ddiwrnod olaf mis Hydref.

POBOL Y CWM.
Mae actorion Pobol y Cwm wedi bod yn brysur yn recordio yng Nghapel y Tabernacl yn ystod y mis. Mae'n debyg y cawn weld priodas ac angladd ar y sgrîn cyn hir. Tybed pwy sydd yn mynd i ddiflannu o'r Cwm ?

Dyddiadau i'w cofio.

Rhagfyr 12ed Gwasanaeth yn Eglwys St. Michael, Beddau.
Rhagfyr 14eg Parti Babanod.
Rhagfyr 15ed Parti'r Adran Iau.
Rhagfyr 19eg Sioe Ieuan a Phil, 'Nadoligansa.'

Dymunwn Nadolig Llawen i bawb.

Y TABERNACL

CYNGHERDDAU'R TABERNACL
Bu'r ddau gyngerdd a gynhaliwyd yn Y Tabernacl yn ystod Mis Tachwedd yn arbennig o lwyddiannus. Roedd y capel yn orlawn ar y ddwy ncson a chafwyd dau gyngerdd amrywiol o ran eitemau. Codwyd yn agos i fil, saith cant o bunnoedd ac fe gaiff yr arian ei drosglwyddo i goffrau Cymorth Cristnogol i geisio lleddfu ychydig ar y dioddefaint enbyd ym Mhacistan. Dymuna swyddogion yr eglwys ddiolch o galon i bawb, yn berfformwyr ac hyfforddwyr am wneud y ddwy noson yn llwyddiant.

Siop Tylwyth Teg.
Fe agorodd Siop Tylwyth Teg Teulu Twm yn Neuadd y Pentre', Fore Sul yr ugeinfed o Dachwedd. Aelodau hŷn Teulu Twm sydd yn rhedeg y fenter a bu'r diwrnod cyntaf yn llwyddiant mawr. Gwerthir nwyddau Masnach Deg yn y siop.
Cofiwch gefnogi'r siop sydd ar agor ar y trydydd Sul ymhob mis. Diolch i Huw a Beth Roberts am roi arweiniad i'r Bobl ifanc.

TREFN YR OEDFAON AR GYFER MIS RHAGFYR A MIS IONAWR.
Rhagfyr 4ydd; Oedfa gymun o dan ofal Y Gweinidog.
Rhagfyr lled: Gwasanaeth Nadolig Plant yr Ysgol Sul. (Parti'r plant i ddilyn)
Rhagfyr l8ed :Y Parchedig Eirian Rees gyda help aelodau Teulu Twm.
Rhagfyr 24ain : Gwasanaeth Noswyl Nadolig i ddechrau am 11 o'r gloch y nos. (Croesewir eitemau unigol, partion a chorau)
Rhagfyr 25 : Oedfa fer am 10 o'r gloch y bore. (Croeso arbennig i'r plant bach ddod â'u teganau.)
Ionawr laf: Oedfa Gymun o dan ofal Y Gweinidog.
Ionawr 8fed : Y Parchedig Dafydd Owen, Caerdydd.
Ionawr l5ed : Plant yr Ysgol Sul
Ionawr 22ain: Elenid Jones, Pentyrch.
Ionawr 29ain: Oedfa o dan ofal Emlyn Davies, Pentyrch.

Parti'r Efail ar y brig eto.

Am yr ail flwyddyn yn olynol, Parti'r Efail enillodd y wobr gyntaf am gôr neu barti Alaw Werin Agored yr Wyl Gerdd Dant yn Abergwaun. Roedden nhw wedi ennill yr un gystadleuaeth llynedd yn Llandudno a nawr fe fydd rhaid sgriffinio eu henwau unwaith eto ar Gwpan Parti'r Ffynnon i nodi eu buddugoliaeth. Awgrymodd un wag dylid fod wedi aros a chael dau sgriffiniad am bris un!

Yn eu tro, mae'r Parti sy'n dathlu eu dengmlwyddiant eleni, wedi ennill ar gerdd dant yn yr un wŷl (Yr Wyddgrug) a theirgwaith am gerdd dant yn yr Eisteddfod Genedlaethol (Llanelli, Meifod a Chasnewydd). Eu harweinydd yw Menna Thomas, Efail Isaf. Roedd wyth parti yn y gystadleuaeth – y gystadleuaeth fwyaf poblogaidd i bartïon agored yn yr holl wŷl. Roedd un darn gosod, sef hen garol blygain draddodiadol unsain o'r enw "Gwel yr Adeilad" ac yna hunan-ddewisiad mewn pedwar llais. Dewiswyd y gan werin "Gwn Dafydd Ifan" a'i chanu mewn arddull ddireidus a hwyliog sy'n nodweddiadol o ochr ysgafnach cyflwyniadau'r Parti.

Dridiau ar ôl eu buddugoliaeth yn Abergwaun, roedd Parti'r Efail ymhlith yr artistiaid fu'n codi arian at gronfa Kashmir, yng nghapel y Tabernacl, Efail Isaf. Cyn hir fe fyddan nhw'n canu yn Nhonyrefail ac yn ddiweddarach yn Llandeilo, Caerdydd a Threorci.

Cofiant Gwynfor: "Campwaith"

Disgrifiwyd cofiant newydd i Gwynfor Evans a gyhoeddwyd yn ddiweddar fel "campwaith" gan un o awdurdodau pennaf gwleidyddiaeth Cymru, Dr Richard Wyn Jones. Dywed y darlithydd fod cyhoeddi *Gwynfor: Rhag Pob Brad* "yn ddigwyddiad o bwys hanesyddiaethol a llenyddol… gan roi darlun sy'n gytbwys tra'n finiog" o un o wleidyddion Cymreig pwysica'r Ugeinfed Ganrif.

Awdur y cofiant yw Rhys Evans, newyddiadurwr gyda'r BBC sydd wedi gweithio am dair blynedd yn ymchwilio'n ddyfal i fywyd Gwynfor Evans, a fu farw'n gynharach eleni. Yn ôl yr awdur ei fwriad oedd rhoi darlun teg a chyflawn o fywyd Gwynfor: "Dwi wedi ei gwneud yn glir o'r dechrau'n deg, mai cofiant am Gwynfor oedd hwn ac nid cofiant i Gwynfor. Fuodd e erioed yn fwriad gen i fynd ati'n fwriadol i bardduo Gwynfor, ond ar y llaw arall dwi o'r farn bod darlunio cryfderau a gwendidau rhywun, yn aml yn gwneud mwy o gymwynas ac yn decach â rhywun na chynnig buchedd sant. Yn y bôn, mae



Gwynfor yn rhy bwysig o beth tipyn i fod yn eicon."

Yn ôl y beirniaid does dim amheuaeth i'r awdur lwyddo yn ei fwriad. Meddai Vaughan Roderick, Golygydd Materion Cymreig BBC Cymru: "Heb os, hwn yw'r bywgraffiad gwleidyddol gorau i mi ddarllen mewn unrhyw iaith… fe fydd y llyfr yn haeddu ei le ar silffoedd unrhyw un sy'n ymddiddori mewn gwleidyddiaeth a hanes Cymru." Cred awdur Hanes Cymru, Dr John Davies, fod y gyfrol "yn garreg filltir bwysig yn hanesyddiaeth Cymru. Ceir cronicl o hanes y genedl dros drigain mlynedd a mwy yn y gyfrol... camp neilltuol iawn."

Lanswyd **Gwynfor: Rhag Pob Brad** a gyhoeddir gan Y Lolfa yn y Pier Head, Caerdydd ar 9ed Tachwedd ac yna yn y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 17eg Tachwedd, lle'r oedd yr awdur yn trafod ei gyfrol ac yn arwyddo copïau. Mae'r llyfr yn 604 tudalen clawr caled ac yn cynnwys 64 tud. o luniau. Mae ar werth am £24.95.

Gwynfor: Rhag Pob Brad
gan Rhys Evans
Y Lolfa, £24.95

Job Trac Cymru

Canolfan Datblygu Busnes
Ystad Diwydiannol Trefforest
Pontypridd
CF37 5UR

T: 01443 843800
F: 01443 205735
E: post@jobtraccymru.co.uk
W: www.jobtraccymru.co.uk

Ydych chi'n

- CHWILIO AM SWYDD?
- CHWILIO AM WEITHWYR SY'N SIARAD CYMRAEG?
- CHWILIO AM YMGYNGHORWYR ADNODDAU DYNOL?

Adnoddau Dynol a Recriwtio Cymraeg

YSGOL EVAN JAMES

www.ysgolevanjames.co.uk

Ffarwelio â Pennaeth

Ar ddiwedd tymor yr Hydref eleni fe fydd Wil Morus Jones, Pennaeth ein hysgol, yn ymddeol ar ôl gyrfa o dros 37 o flynyddoedd ym myd Addysg Gynradd. Bu'n bennaeth Ysgol Evan James ers deuddeng mlynedd ac arweiniodd yr ysgol drwy ddau arolwg llwyddiannus yn ogystal â llywio'r ysgol wrth iddi ennill gwobrau megis Gwobr Cwricwlwm 2000 a Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol.

Cychwynnodd Wil ei yrfa addysgol yn Ysgol Gynradd Trerobat, Ynysybwl yn 1968 wedi iddo adael Y Coleg Normal, Bangor. Gweithiodd yno gyda'i ffrindiau Roy Lewis a Dafydd Idris - dyddiau difyr mae'n siŵr! Arhosodd yn Nhrerobat am dair blynedd ar ddeg cyn symud oddi yno i fod yn diwtor Cymraeg Ail Iaith yng Ngholeg Politechnig Cymru.

Yn 1983 fe'i benodwyd yn ddirprwy bennaeth yn Ysgol Heol y Celyn cyn ei benodi yn bennaeth ar ysgol Santes Tudful, Merthyr ar ddiwedd yr wythdegau.

Yn 1993 fe groesodd i'r 'ochr arall' a dod yn Ymgynghorydd Addysg Cynradd – ond cyn pen blwyddyn fe ddaeth 'yn ei ôl' fel pennaeth Ysgol Evan James.

Mae Wil yn uchel iawn ei barch yn yr ysgol, ardal Pontypridd ac ym myd addysg a chanu corawl dros Gymru gyfan. Bu'n arwain côr Godre'r Garth am dros chwarter canrif - côr a fu'n llwyddiannus dros ben o dan ei arweiniad gan ennill sawl cystadleuaeth anrhydeddus, recordio crynoddisgiau a recordiau a pherfformio ar y teledu a'r radio yn ogystal â llwyfannau ledled Ewrop.

Erbyn hyn, mae Wil wedi cael blas ar deithio tramor – bu'n teithio yn aml i'r Dwyrain Canol (yn ei eiriau o "i chwilio am Bin Laden!") a Sbaen yn ddiweddar, a'r bwriad ydi i weld mwy o'r hen fyd ar ôl y Nadolig. Mae taith i briodas ei nith ym Mhatagonia ar y gweill ac fe soniodd wrthyf fod ganddo awydd mynd i'r India. (Soniodd hefyd fod cyris yn codi gwynt arno, ond mae honno'n stori arall!!)

Un felly ydi Wil – un sy'n llawn storïau doniol am ei brofiadau fel athro, pennaeth, ymgynghorydd, arweinydd côr, teithiwr rhyngwladol (!) ac un sy'n wybodus iawn yn ei faes ac yn barod iawn i wneud tro da â phobl. Does dim rhyfedd ei fod yn uchel ei barch – nid yn unig yn Ysgol Evan James ac ardal Pontypridd ond drwy Gymru.

Mi fydd hi'n golled ar ei ôl o yn yr ysgol – mae'r disgyblion i gyd wedi gwirioni arno. Maent wrth eu boddau yn cael mynd ato i ddangos gwaith da, neu am ei bod hi'n benblwydd arnynt, er mwyn derbyn un o'i sticeri arbennig. Ac mae o wrth ei fodd yn eu croesawu i'w ystafell gan wthio gwaith papur diflas pennaeth i'r naill ochr er mwyn gwario munud neu ddau yng nghwmni plant.

Ar ran holl staff a disgyblion yr ysgol - gan gynnwys cyn-aelodau o'r staff a chyn disgyblion - dwi am ddymuno ymddeoliad hir a hapus i Mr Jones, gan obeithio y bydd ei basport yn llenwi efo stampiau di-ri wrth iddo geisio gwneud enw iddo'i hun fel y Michael Palin Cymreig!

Rhys Lloyd

YMWELIAD Y GWEINIDOG ADDYSG

YMWELIAD Y GWEINIDOG ADDYSG

Daeth Gweinidog Addysg Y Cynulliad, Jane Davidson, i'r ysgol ar Hydref 21ain. i hybu "Diwrnod Gwneud Gwahaniaeth". 'Roedd y diwrnod yn rhan o gynllun i wneud gwahaniaeth yn y gymuned a phlannodd rhai o blant yr ysgol fylbiau cennin pedr gyda help y Gweinidog Addysg.

DIWRNOD PLANT MEWN ANGEN

Gwnaeth plant Blwyddyn 6 berfformio gwasanaeth arbennig 'Eich Breuddwyd' ar ddiwrnod Plant Mewn Angen. Bu'r disgyblion yn holi athrawon yr ysgol am eu breuddwydion pan oedden nhw'n blant a chawsant atebion yn amrywio o 'bod yn nyrs' i 'bod yn beilot awyren'! Casglwyd £457 – da iawn blant a diolch i Mrs. Prys Connor am drefnu'r cyfan.

PARATOADAU'R NADOLIG

Mae'r plant i gyd yn brysur yn paratoi ar gyfer cyngherddau yn ystod mis Rhagfyr:
Meithrin – 'Taith i Fethlehem'
Derbyn – 'Penblwydd Arbennig Tad-cu'
Blwyddyn 1 – 'Stori'r Geni'
Blwyddyn 2 – 'Crud Cledwyn'
Adran Iau – Gwasanaeth Y Nadolig.

YMDDEOLIAD

Dymuniadau gorau i'r prifathro Mr Wil Morus Jones fydd yn ymddeol ar ddiwedd y tymor.

YSGOL GYFUN RHYDFELEN

Taith Sgiliau Bywyd Blwyddyn 11 i Gwrtycadno

Ar yr ail ar bymtheg o Hydref aeth grŵp Sgiliau Bywyd Blwyddyn 11 i Gwrtycadno. Cyrhaeddom am hanner awr wedi deuddeg ar ôl taith swnllyd. Gwnaethom lawer o weithgareddau tra roeddem yno. Ar ôl cyrraedd ac ymlacio am ychydig roedd rhaid mynd am dro gydag un o'r disgyblion yn arwain. Roedd y daith yn hir ond nid oeddem wedi colli'r ffordd. Yna aethom i nofio i Lanbed, ac wedyn ymlaen i'r dref i edrych o gwmpas a siopa ychydig. Tref fach yw Llanbed ac yr oedd pawb yn siarad Cymraeg yno.

Aethom yn ôl i'r ganolfan i gael bwyd ac wedyn cael cyfle i chware gemau fel Twister, Bingo, Jenga a Connect 4. Cawsom gwis a hefyd ein diddanu gan Cael Light a Craig Withey. Cawsom lawer o hwyl.

Y diwrnod wedyn roeddem yn flinedig iawn. Yn ystod y bore fe goginiodd Cael, Geraint a finnau gacen siocled, ac yr oedd pawb yn ei hoffi. Am ddau o'r gloch yr oedd yn amser i fynd i Langrannog. Aethom i'r traeth yn gyntaf ar ôl cyrraedd. Cawsom lawer o hwyl yn sgïo a gwib gartio yng Nghanolfan yr Urdd. Cwympodd llawer ohonom wrth fynd lawr y llethr. Daethom yn ôl i'r ganolfan erbyn hanner awr wedi saith, roeddem i gyd wedi mwynhau ond wedi blino.

Bore wedyn fe wnaethom gysgu tan hanner awr wedi with. Roedd Mr Bryn Evans yn meddwl bod hyn yn hwyr iawn! Roedd rhaid pacio a glanhau cyn mynd adref. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr ac eisiau mynd yn ôl i Gwrtycadno. Diolch yn fawr i Mrs. Jan Lewis, Mrs. Sian Locke, Mr Bryn Evans a'r swyddogion am fynd â ni.

Gawn ni fynd yn ôl yn fuan os gwelwch yn dda?

Hollie Jones
Blwyddyn 11

Cwrtycadno

Llethr Sgïo yng Nghanolfan yr Urdd yn Llangrannog

Y Daith Gerdded

Seibiant ar ôl y Daith Gerdded

Taith yr Adran Hanes i Wlad Belg i Ddathlu'r Cadoediad

Ar ddydd Gwener yr 11eg o Dachwedd aeth criw o bedwar deg o blant o flynyddoedd 9, 10 a 12 a phedwar athro i Ypres yng ngwlad Belg. Mae'r diwrnod yn un arbennig yn hanes, sef Diwrnod y Cadoediad.

Tra yr oeddem yno fe fuom yn ymweld â llawer o fynwentydd. Un ohonynt, sef un o'r rhai mwyaf, oedd Lyssenthoek. Yma mae pobl o Brydain, India, Awstralia, Ffrainc ac America wedi cael eu claddu. Fe fuom hefyd ym mynwent Tynecot, y fynwent filwrol fwyaf yn y byd, a hefyd i ymweld â'r fynwent ble mae'r bardd enwog Hedd Wyn wedi ei gladdu.

Roedd dau ddyn a oedd yn arfer bod yn y lluoedd arfog wedi ymuno â ni ar y daith i'n tywys o amgylch gwlad Belg a Ffrainc, sef Arthur Woodward a Bill McQuade. Roeddynt yn ddiddorol iawn gyda llawer o hanes a ffeithiau ynglŷn â'r rhyfel byd cyntaf.

Ar y dydd Sadwrn fe aethom i Ffrainc i weld yr ardal lle digwyddodd brwydr y Somme. Yn y fan yma roedd milwyr Cymreig yn ymladd mewn coedwig o'r enw Mametz, ac yma roedd cofeb i'r milwyr a fu farw.

Ar Ddiwrnod y Cadoediad fe gymeron ni ran yn y gwasanaeth yn yr Eglwys Gadeiriol yn Ieper. Roedd rhaid i bawb a oedd yn cymryd rhan yn y parêd gario ychydig o ddail pabi, un am bob milwr a fu farw yn ystod y rhyfel. Wedyn fe aethom i amgueddfa Passchendale ac i ymweld â ffos Almaeneg o'r cyfnod sydd wedi cael ei gadw mwy neu lai fel yr oedd.

Tra yr oeddem yno gwelsom ddau "Crater" enfawr lle yr oedd milwyr wedi plannu defnydd ffrwydrol o dan fynceri a ffosydd Almaeneg. Cafodd llawer eu lladd yma, ac roedd y ffrwydrad i'w glywed mor bell i ffwrdd â Llundain.

Fe wnaeth dau aelod o'r grŵp ymchwil i mewn i aelodau o'u teulu oedd wedi colli eu bywydau yn y rhyfel ac oedd wedi eu claddu yn Belg a Ffrainc. Roedd un wedi ei gladdu ym mynwent Tynecot, ac felly roedd rhaid mynd ar bererindod i ffeindio'r fynwent a oedd ddim yn bell o Calais yn Ffrainc.

Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad o fod yno ar yr adeg arbennig yma ac wedi dysgu llawer iawn.

Alun Evans
Blwyddyn 10

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Meima Morse

Mae eleni wedi bod yn llym ei cholledion yn nheulu Averil ac Allan Pickard, Geraint ac Aled. Yn ddiweddar iawn clywon am farwolaeth Roy, tad Allan, a hynny o fewn cyfnod byr iawn ers iddo gladdu ei fam. Ers iddo golli ei wraig Hazel, bregus iawn fu iechyd Roy ac wedi'r profiad trist hwnnw dioddefodd yntau waeledd dwys a'i caethiwodd i'w gartref ac i Ysbyty Dewi Sant. Bydd eu parodrwydd i roi pob gofal a chysur iddo yn ystod ei angen yn gyfrwng, mae'n siŵr, i ddod a rhywfaint o gysur i'r teulu yn ystod cyfnod y galaru a'r addasu. Estynnir cydymdeimlad yr ardal gyfan a thu hwnt atoch fel teulu.

Dymunir yn dda i'r Parchedig Herbert Nicholas ac yntau yn paratoi i dderbyn llawdriniaeth. Cydnabyddir y Parchedig Nicholas fel canwr ardderchog ac enillydd ar gystadlaethau i faswyr ledled Cymru.

Capel Salem

Mae'r capel eto ynghanol cyfnod o brysurdeb gyda'r Gymdeithas yn para i drafod ac elwa yng nghwmni ei gilydd ynghanol brwdfrydedd heintus pob aelod.

Codwyd £680 mewn prynhawn coffi yn festri Salem ar gyfer apêl daeargryn India a Phakistan.

Dyma ni ar drothwy tymor prysur arall - dathliadau'r Nadolig. Yr achlysur cyntaf fydd Cymanfa Ganu'r Dysgwyr ar y 7fed o Ragfyr am 10.30 y bore. Dewch.

Pob dymuniad da a chofion cynnes iawn at Gwyneth a Meurig James gyda Meurig unwaith eto yn yr ysbyty.

Efallai eich bod o'r farn fod diwedd Tachwedd yn eithafol o oer yma yng Nghymru. Yn ôl adroddiad Megan Cutts, sydd wrthi'n troedio'n yr Himalayas, `dyw hi ond megis haf gyda ni. Yn ystod Hydref, tra bu'n teithio trwy China a Fietnam roedd y tywydd yn dderbyniol ond nid felly'r Himalayas. Yma, ynghanol golygfeydd syfrdanol, mae'r tywydd yn feunyddiol rhewllyd. Tra'n gyrru am 5 diwrnod yn Tibet ymwelodd â gwersyll cyntaf mynydd Everest. Ei disgrifiad o'r profiad; "uchder arswydus nas gellir ei ddychmygu - rhaid ei weld". Dwed ei fod yn anodd dirnad sut mae pobl yn medru bodoli yn y fath oerfel anhygoel. Yno bu'n aros mewn dau fynachdy, - yn Gyantse (uchder=3950 metr) ac yn Rongpu (5000m.). Wedi cyrraedd Kathmandu bu'n trefnu taith gerdded trwy'r Himalayas gan orfod llogi sach gysgu eithriadol o drwchus. Dyma ble bydd Megan yn teithio hyd yr ail wythnos yn Rhagfyr - nid y lle mwyaf delfrydol i wneud eich siopa Nadolig wrth gwrs ond mae'n siŵr bydd yr atgofion a'r lluniau'n fwy gwerthfawr nag unrhyw declyn o'n siopau. Edrychwn ymlaen at ymateb Megan i'w thaith gerdded.
(Cwestiwn wrth basio:
Pu'n oedd y mynydd uchaf cyn iddynt ddarganfod Everest? Ateb: TREVESE (anag))

Prynhawn Coffi Nadolig

08/12/2005
2:15pm
CAPEL SALEM TONTEG
Nwyddau'r Nadolig
Croeso Cynnes i Bawb

CAPEL SALEM
TONTEG
RHAGFYR 2005
GWASANAETHAU CYMRAEG
DYDD SUL 9.30 -10.30am
04/12/2005 - Parch Peter Cutts (Cymundeb)
07/12/2005 - Dysgwyr (10.30am)
11/12/2005 - Parch Peter Cutts
13+14/12/2005 - YGG Garth Olwg
18/12/2005 - Parch Peter Cutts
25/12/2005 - Parch Peter Cutts (10.00am)
Y GYMDEITHAS GYMRAEG
POB NOS WENER 7.00 - 8.30pm
Cyfle i fwynhau cwmni Cymry Cymraeg.

NADOLIG
HEDDYCHLON
I PAWB
☎02920 813662

Ysgol Heol-y-Celyn

I ddechrau'r mis yma rhaid croesawu Miss Julie Jones yn ôl i'r ysgol ar ôl bod i ffwrdd am gyfnod mamolaeth ar ôl genedigaeth ei merch fach Mili. Mae pawb yn falch iawn o'i gweld yn ôl.

Rhaid hefyd croesawu dwy fyfyrwraig o UWIC i adran y Babanod sef Kay Sandford i'r adran Gymraeg a Hannah Skuse i'r adran Saesneg. Rwy'n siŵr bydd y ddwy yn hapus iawn gyda ni yn yr ysgol.
Aeth blynyddoedd 5 a 6 i ganu i'r Jambori yn Llantrisant ar 17 Hydref, o weld yr holl gyffro a sŵn yn amlwg roedd pawb wedi mwynhau.

Cafodd tîm rygbi'r ysgol gêm yn erbyn Pontyclun ble y bu iddynt guro o 26-14. Cafodd Levi Knowles ddwy gais a Celynd Hope a Josh Owen un cais yr un a chiciodd Levi dair cic ar ôl y ceisiau. Da iawn chi fechgyn.

Cynhaliwyd disgo Calan Gaeaf yn yr ysgol a gafodd ei drefnu gan Ffrindiau Heol-y-Celyn ble y bu i'r plant wisgo lan. Roedd gwobrau i'r plant oedd â'r wisg ffansi gorau. Enillodd Darren Cartwright, Lee Yorke, Courtney Yendle, Whitney Yendle, Bridie Rees a Dylan Beere. Da iawn chi blant - roedd eich gwisgoedd yn arbennig.

Mae'r rhieni a'r plant wedi bod yn brysur yn yr ysgol yn llenwi bocsys ar gyfer `Operation Christmas Child'. Derbyniwyd tua 50 o focsys yn yr ysgol felly diolch yn fawr i'r plant a'r rhieni am eu gwaith a'u haelioni.

CAROLAU'R NADOLIG
Gwasanaeth Arbennig i'r Dysgwyr

10.30am,07/12/2005
CAPEL SALEM, TONTEG
Lluniaeth yn y Festri ar ôl y gwasanaeth
Parch Peter Cutts
CROESO CYNNES I BAWB ☎02920 813662

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Marian Wynne

PRIODAS DDA

Llongyfarchiadau i Heather George a James Stuart ar achlysur eu priodas yn Eglwys Sant Catwg ar y 5ed o Dachwedd. Gweinyddwyd y gwasanaeth gan y Canon Neville Jones a'r organydd oedd Mr John Gough. Cerddodd y briodferch i mewn i sŵn y gân, "It had to be you." Ei ffrind Christine Leach oedd y forwyn a'i nith Nia, merch ei brawd Ian a Nina, oedd y forwyn fach. Christian Glennie, brawd yng nghyfraith y priodfab oedd y gwas. Cynhaliwyd y wledd briodas yng ngwesty'r New House ac wedi mis mêl yn y Maldives bydd y ddau yn ymgartrefu yn Watford lle mae busnes cynllunio gerddi gan James. Mae Heather yn gweithio i'r Gwasanaeth Sifil a newydd symud o Sheffield i Lundain. Dymunwn bob hapusrwydd i'r ddau.

LLONGYFARCHIADAU

Mewn seremoni gerbron yr Arglwydd Ganghellor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar yr 8fed o Dachwedd, cafodd Wyn Rees ei benodi yn Farnwr Cylchdaith ar Gylchdaith Cymru a Chaer. Bydd yn Farnwr Preswyl yn Llys Sirol Pontypridd gyda chyfrifoldeb am Lysoedd Sirol Aberhonddu, Merthyr Tudful ac Aberdâr. Llongyfarchiadau gwresog i Wyn a phob dymuniad da iddo yn dilyn ei ddyrchafiad.

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Sian a Mike Pickard, Sara a Bethan ar farwolaeth tad Sian yn ddiweddar a hynny ychydig fisoedd yn unig wedi i Mike golli ei fam.

CLWB Y DWRLYN

Cafwyd noson hwyliog a diddorol iawn yng nghwmni Brian Davies wrth iddo ddisgrifio ei brofiadau yn "Peintio'r Sêr". Yn ei ffordd ddihafal ei hun amlinellodd Brian sut y datblygodd ei ddiddordeb mewn celf, a'r pleser a gafodd wrth beintio'r sêr - o fyd chwaraeon ac o feysydd eraill - enwogion megis

Y teulu yn dathlu priodas Heather a James

Catrin Finch, Karl Jenkins a Michael Howard (cyd-ddisgybl iddo yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn, Llanelli!) Cred Brian fod gan bawb y gallu i dynnu llun ac i brofi hynny dosbarthwyd pensil a phapur i bawb er mwyn cynnal cystadleuaeth portreadu partner. Yr enillydd oedd Emlyn Davies gyda'i lun o Ann. Mae'n siŵr bod y campwaith wedi ei fframio ac i fyny ar y wal ym Maes y Sarn erbyn hyn!

CYLCH CADWGAN

Aeth Cylch Cadwgan tu allan i'r dalgylch arferol ar gyfer y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed o Dachwedd ond 'roedd rheswm da dros hynny. Llyfr Aneirin oedd y testun ac er mwyn gweld y trysor 'roedd yn rhaid mynd i Lyfrgell Ganolog Caerdydd lle mae'n cael ei gadw. Y siaradwr oedd Dylan Foster Evans o Brifysgol Caerdydd ac yn ogystal â datgelu rhai o hynodion y gyfrol rhoddodd flas o'r dadleuon sy'n dal i gyniwair ynghylch ei darddiad. 'Roedd y gynulleidfa wrth ei bodd a da oedd gweld cymaint o ddisgyblion ysgol yn bresennol.

Diolch i Ferched y Wawr am drefnu'r noson, i'r Academi am gymorth ariannol ac i swyddogion Llyfrgell Caerdydd am agor y drysau yn arbennig ar gyfer y cyfarfod. 'Does ond gobeithio y bydd lle teilwng i arddangos yr hyn sydd, wedi'r cwbl, yn un o brif drysorau ein cenedl yn y Llyfrgell newydd.

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
Ffôn: 029 20484816

Cefnogwch
Y CYMRO
Papur Cenedlaethol Cymru ers 1932.
Ffonwich Edwina 01970 615000 am fanylion tanysgrifio.



Cais Taer
Rydym yn edrych am oruchwylwyr rhan neu llawn amser i'r plant dros yr awr ginio. Tâl ac amodau gwaith da. Cysylltwch â'r ysgol am ragor o fanylion.

Sainsbury : Ymgyrch Plant Bywiog 2005
Casglwyd 6,900 o dalebau ac rydym wedi eu cyfnewid am offer chwaraeon i'r ysgol eu defnyddio.

Talebau cyfrifiaduron Tesco 2005
Casglwyd 64,572 o dalebau (gan gynnwys 14,449 o'r Tesco Express lleol). Cyfnewidiwyd y talebau am 3 cyfrifiadur, camera digidol, 3 meddalwedd a CD Romau. Yn ôl Tesco y mae Creigiau wedi casglu mwy o dalebau nag unrhyw ysgol arall yn yr ardal! Diolch i bawb am eich cefnogaeth.

Tocynnau Persil
Casglwyd digon o dalebau i brynu dau becyn o does modelu a phecyn mawr o greonau.

Apêl Arch Noa
Apêl "Dewch â Phunt i'r Gwaith". Casglwyd £26.35 i gefnogi'r apêl.

Operation Christmas Child
Diolch yn fawr am anfon 139 bocs i'r ysgol i roi i blant draw yn Bosnia. Casglwyd hefyd £278 i gronfa'r Samariaid.

Apêl Plant Mewn Angen
Y thema eleni oedd "Pawb at y peth y bo". Casglwyd £660 ar gyfer plant mewn angen. Dyma gyfle'r plant a'r staff i wisgo fel pwy bynnag yr oeddent eisiau am ddiwrnod. Am yr anrhydedd hon gofynnwyd i'r plant a'r staff gyfrannu tuag at yr apêl.

Cystadleuaeth Pêl-Droed Saith Bob Ochr Yr Urdd
Aeth tîm pêl-droed yr ysgol i gymryd rhan yng nghystadleuaeth saith bob ochr yr Urdd yng Ngerddi Soffia. Cyrhaeddodd y tîm y rownd gyn-derfynol ond collon ni 1-0 i Radur. Cafodd pawb llawer o hwyl ac roedd Mr Evans yr athro yn blês iawn efo'n perfformiadau. Diolch Mr Evans am fynd â ni a rhoi cyfle i ni gymryd rhan.

Trip i'r Tabernacl
Fe aeth plant yr Adran Babanod Cymraeg ar daith i Gapel Tabernacl, Efail Isaf i weld Tomos Roberts yn cael ei fedyddio gan Y Parchedig Eirian Rees. Ar ôl hynny fe aethon nhw i Harry Ramsden's i gael cinio blasus. Fe gawson lawer o hwyl yno.

Cyngerdd yn y Tabernacl
Ar y 14 o Dachwedd canodd Côr yr ysgol yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf. Roeddem ni yno gydag Ysgol Gartholwg, Fflur yn canu'r delyn, Côr y Tabernacl, a Pharti'r Efail.

Roedd yn fraint cael cymryd rhan i helpu codi arian ar gyfer pobl sy'n dioddef o effeithiau'r ddaeargryn ym Mhacistan. Noson wych.

Techniquest
Fe aeth plant blwyddyn 5 a 6 yr Adran Gymraeg i Techniquest i ddysgu am Ddefnyddiau. Cawsom ni hwyl yn y Theatr lle dysgon ni lawer am Solidau, Hylifau, a Nwyon a chael hwyl dda ar bleidleisio fel y gynulleidfa ar "Who Wants to be a Millionaire". Cafodd pawb dro ar ddarganfod pa nwyon oedd eu angen ar y Roced Hydrogen i fynd i'r gofod a pha hylif oedd y swigen yn teithio trwyddo gyflymaf yn y Ras Swigod. Cafodd pawb fwyd blasus a chyfle i brynu rhywbeth bach yn y siop. Aeth pawb nôl i'r ysgol gyda gwên ar eu hwynebau ac yn gwybod y cwbwl oll am Ddefnyddiau!

Castell Caerdydd
Fel rhan o'u thema, fe aeth Dosbarth 5 i Gastell Caerdydd, ac fe ddysgon nhw llawer o bethau am gestyll. Fe gerddon nhw i fyny'r gorthwl a gwelson nhw olygfa eang o'r ardal lleol. Fe aethon nhw i'r stafell addysg ac fe gawson nhw gyfle i wisgo helmed Rhufeinig.

Stryd Hapus 2
Mae Plant Dosbarth 5 wedi bod yn recordio caneuon ar gyfer Stryd Hapus 2 i gwmni Drake. Roedd Tadcu Catrin Cox wedi bod yn yr ysgol ac wedi bod yn y neuadd gyda'i offer recordio. Tâp o ganeuon yw e ar gyfer plant sydd yn dysgu Cymraeg.

Cystadleuaeth Tapestri
Cymrodd clwb yr Urdd ran mewn cystadleuaeth Tapestri First Plus. Cymrodd llawer o ysgolion ar draws dinas Caerdydd ran yn y gystadleuaeth hon ond daeth ein hysgol ni yn drydydd. Ar ddiwrnod olaf mis Hydref aeth Billie Horsey, Lowri Davies a Tonio Judd i'r Queen's Arcade i gasglu eu gwobr.

Y Feithrinfa
Croeso i Mrs Walters i'r Feithrinfa ac i Mrs Rees i'r Nursery. Maen nhw yn cymryd lle Mrs Thomas oherwydd mae'r efeilliaid ar eu ffordd. Gwnewch yn fawr o'r hoe Mrs Thomas.

TI A FI BEDDAU
Bob Bore Mercher
10.00 - 11.30a.m.
yn Festri Capel Castellau, Beddau

TI A FI TONTEG
Bob Dydd Mawrth
10 - 11.30
yn Festri Capel Salem, Tonteg

TI A FI CREIGIAU
Bore Gwener 10 - 11.30am
Neuadd y Sgowtiaid,
Y Terrace, Creigiau
Manylion: 029 20890009

CYLCH MEITHRIN CILFYNYDD
Bore Llun, Mercher a Iau
9.30-11.30
TI A FI CILFYNYDD
Dydd Gwener
9.30-11.30
Neuadd Y Gymuned,
Stryd Howell,Cilfynydd.
Manylion: Ann 07811 791597

YSGOL GYFUN LLANHARI

Adroddiad Taith Rygbi De Affrica

Nid oes digon fedra i ddweud am y daith yma. O'r amser y gwelais bawb yn chwifio hwyl fawr i ni ar ddechrau'r daith, roeddwn i yn gwybod ei bod hi yn mynd i fod yn daith arbennig a chofiadwy. Roedd yna ryw fath o awyrgylch arbennig ar y bws ar y ffordd i'r maes awyr. Awyrgylch o gyffro annisgwyl i fod yn onest, mae'n anodd ei ddisgrifio!

Chwaraeon ni pum gêm ac fe enillon ni ddim ond un. Fe wnaeth y bechgyn a'r merched gysylltu ac roedd yna lawer o bobl ar y daith wedi gwneud ffrindiau gwych ar y daith yma. Roedd y tîm rygbi wedi gwneud yn well na'r disgwyl ac roedd yna deimlad enfawr o'r tîm yn datblygu trwy'r daith. Fe ddysgodd pawb rhywbeth yn ystod y daith o ran safon y chwarae a hyd yn oed o ran cwrdd â phobl newydd a gweld llefydd newydd!

Roeddem yn ddiolchgar dros ben i'r athrawon a drefnodd yn holl daith ar ein cyfer ni, roedd hi yn fythgofiadwy ac mae gennym ni gymaint o atgofion bendigedig fydd yn aros gyda ni am byth.

Jonathon Williams. Bl 13.

Taith i Auschwitz.

Yn ystod wythnos y cofio fe fu dau ddisgybl o Flwyddyn 13 sef Matthew Cassidy a Simon White ar daith gyflym iawn i ymweld â'r hen garchardai yn Auschwitz yng ngwlad Pwyl. Cafodd y bechgyn eu dewis gan yr Urdd gan eu bod yn barod wedi gwneud llawer o waith gwirfoddol gyda'r Urdd yn y gorffennol. Fe

Gwneud ffrindiau yn Ne Affrica

aethant i wlad Pwyl gyda dwy ferch o Ysgol Gyfun Rhydfelen o'r enw Eleri Evans a Kate Griffiths. Fe aeth dwy o weithwyr yr Urdd gyda hwy hefyd sef Catrin Evans ac Eleri Griffiths. Pwrpas yr ymweliad yma oedd ymuno yn y cyfnod o wythnos o gofio ar y daith "Holocaust Tour". Roedd llawer iawn o deithwyr eraill yno hefyd o nifer o wledydd o amgylch y byd. Fe gafodd eu taith ei ffilmio gan raglen deledu "Wales Today" ac fe fu rhai ohonynt yn siarad ar Radio Cymru hefyd. Roedd y chwech yma yn cynrychioli Cymru ar eu taith.

Chwaraeon
Nofio

Mae Sarah Lougher wedi cael ei dewis i gynrychioli y sir mewn nofio.

Katie Westphal Blwyddyn 7.

Mae Katie a'i thad wedi cyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth golff cenedlaethol y Douglas Bader Cup. Katie a'i thad fydd yn cynrychioli De Cymru a'r Gorllewin yn y gystadleuaeth. Katie yw y cystadleuwr ieuengaf erioed i gymryd rhan yn y rownd derfynol sy'n cael ei chwarae ym Mhortiwgal ym mis Tachwedd. Mae'r ysgol yn dymuno pob lwc i'r ddau ohonynt yn y gystadleuaeth.

Naomi Jones Blwyddyn 10

Mae Naomi wedi bod yn cystadlu mewn cystadleuaeth sboncen yn ddiweddar. Roedd yn gystadleuaeth Cymru gyfan a daeth Naomi yn ail. Da iawn ti!

Robert Young Blwyddyn 10.

Mae Robert yn perthyn i glwb Jiwdo Maesteg sydd yn barod wedi cynhyrchu athletwyr Jiwdo llwyddiannus iawn oedd yn aelodau o'r ysgol. Bu Robert yn cystadlu yn Sheffield yn ddiweddar yng nghystadleuaeth ysgolion Prydain. Mae Robert hefyd yn mynd i'r Iseldiroedd ar ddiwedd mis Hydref ac yn cynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth rhwng gwledydd Ewrop gyfan. Mae'r ysgol yn dymuno pob lwc iddo yna.

Rhian Thomas Blwyddyn 10.

Fe fu Rhian yn Sbaen yn ddiweddar yn cystadlu mewn cystadleuaeth Pencampwriaethau Ewropeaidd Achub Bywyd. Fe ddaeth Rhian yn 4ydd drwy Ewrop. Llongyfarchiadau mawr iddi hi.

Hoci.

Mae nifer o ferched o'r ysgol wedi cael eu dewis i chwarae hoci i'r sir. Fe chwaraeon nhw yn ardderchog ac mae'r canlynol wedi cael eu dewis.

Dan 18 Carys John a Tanya Harrison.

Dan 16 Megan Matthews, Louise John, Elinor Jordan, Mari Thomas a Hannah Kembury.

Dan 14 Louise Rolph.

Mae'r merched yn ymarfer yng Nghyfarthfa ar ôl ysgol un waith bob wythnos ac fe fyddant yn chwarae eu gemau bob Dydd Sadwrn ym mis Tachwedd. Mae'r ysgol yn dymuno pob lwc iddynt yn eu gemau.

Y Sgwod Rygbi yn Ne Affrica

Y Tîm Hoci

MENTER IAITH

ar waith yn Rhondda Cynon Taf

01443 226386

www.menteriaith.org

E-BOST MENTER IAITH

Ydych chi wedi cofrestru i dderbyn nodiadau e-bost yn cynnig pob math o ddigwyddiadau Cymraeg i chi? Gellir cofrestru ar wefan Menter Iaith sef www.menteriaith.org neu drwy ddanfon nodyn at leahcoles@menteriaith.org. Wedi gwneud cewch nodiadau rheolaidd ynglyn â dramau Cymraeg, perfformiadau cerddorol, gigs, digwyddiadau i ddysgwyr megis boreau coffi a Sadyrnau siarad, chwaraeon, tripiau, gwaith a busnes a phob math o bethau eraill. Does dim cost felly rhowch gynnig arni. Os oes gyda chi ddigwyddiad rydych am dynnu sylw ato y mae croeso i chi gysylltu â Leah Coles gan ofyn iddi ddanfon nodyn allan ar ran eich côr, neu ysgol neu grŵp yn tynnu sylw at eich gweithgaredd chi.

RHWYDWEITHIAU DYSGWYR YN CRYFHAU

Mae trydydd Sadwrn Siarad y Fenter yn dod i fyny ar 28/01/06 ym mhrifysgol Morgannwg, Pontypridd. Mae tua 50 o bobl wedi bod yn mynychu'r Sadyrnau siarad blaenorol felly rydym yn edrych ymlaen at gael criw go lew unwaith eto i fwynhau'r gwersi, cymdeithasu yn y Gymraeg a chael cyfle i brynu llyfrau a deunyddiau Cymraeg eraill trwy Siop y Bont.

Mae boreau coffi yn parhau i fod yn boblogaidd yn Aberdâr, Aberpennar, Llwynypia, Maerdy, Penrhiwceibr a Chartref Tŷ Ddewi Treherbert gyda degau yn dod bob wythnos. Yn aml iawn y mae dysgwyr yn ymweld â'r gwahanol boreau coffi er mwyn dod i nabod ei gilydd a chydweithio ar nifer o brosiectau megis tripiau neu giniawau Nadolig. Ceir sawl un eleni sy'n waith caled iawn i staff y Fenter!

Mae staff Rhondda Cynon Taf - Caroline Mortimer, Viven Lloyd a staff y llyfrgelloedd yn ceisio sefydlu cylch darllen ac y mae'r Fenter yn paratoi at lansio clwb darllen "Bob Eynon" wedi anelu at ddysgwyr a disgyblion ysgol sydd am ddarllen nofelau ysgafn gan ddod at ei gilydd i'w trafod yn rheolaidd o dan gynllun RAW BBC.

BBC CYMRU YN YMWELD AG ABERDÂR

O dan arweinyddiaeth Cadeirydd y Fenter y mae'r BBC yn paratoi arlwy lleol amrywiol i drigolion Aberdâr yn ystod mis Chwefror 2006 gyda nifer o sêr Cymraeg yn ymweld â'r dref. Ymddengys y bydd Jonsi yn dod ar 14eg Chwefror, fel rhan o wythnos "Caru Aberdar", i ddarlledu yn fyw gyda dysgwry y Fenter - felly gwnewch nodyn o'r dyddiad yma. Bydd criw CIC yn trefnu i ieuenctid Aberdâr ymweld â Sioe Jonathan ar 07/02/06 ac y mae manylion y trip hynny ar gael ar 01685 882299.

PARTÏON, STRATEGAETH DRAMA, TRIPIAU CIC

Mae CIC yn brysur iawn gyda Pharti Nadolig Rhydywaun yn sgil llwyddiant Parti Traeth CIC yn Ysgol y Cymer, trip Eurodisney gyda'r Urdd a thripiau Bowlio Deg a Quasar yn ogystal â Sgïo ym Mhontypwl yn dod i fyny yn ystod hanner tymor y Gwanwyn. Cyn hynny bydd sesiwn ymgynghorol wedi cynnal ar ddrafft Strategaeth Drama CIC sydd wedi cael ei baratoi er mwyn ceisio datblygu'r maes yma yn y Gymraeg.

Mae Cwmni Arad Goch yno ar 07/03/06, cynnal gweithdy drama achlysurol a gweithio at adfer nifer o gwmnïau perfformio lleol erbyn Medi 2006. Pe hoffech chi weld copi o'r drafft strategaeth neu gael gwahoddiad i'r ymgynghoriad sydd i'w gynnal ar 06/02/06 rhowch alwad i Nicola neu Vicky ar 01685 882299.

COLLI 30% O'N GWASANAETHAU PLANT

Er y diddordeb mawr yn y clybiau carco, y degau o blant sy'n mynychu bob nos, y 38 o staff sy'n cael eu cyflogi bob nos a'r cannoedd o rieni sy'n dibynnu ar ein gwasanaethau plant, tristwch ydy derbyn nad oes cefnogaeth ariannol ar gael at gynnal y gwasanaethau hyn naill ai gan y Cynulliad Cenedlaethol nac ychwaith gan Gyngor Rhondda Cynon Taf. Gwrthodwyd tri chais gan y Cynulliad a nifer o apeliadau at Gyngor Rhondda Cynon Taf. Dadl y ddau ydy bob rhaid i rieni dalu yn llawn ac yn ddigonol os ydynt eisiau gwasanaethau clybiau ar ôl ysgol. Nid yw ein dadleuon parthed tlodi'r ardal, yr angen am wasanaethau chwarae a chymdeithasol cyfrwng Cymraeg a'r gwerth rydym wedi ychwanegu at brofiadau addysgol y plant ddim wedi ennill y diwrnod. Felly dyma ni yn cau 30% o'n gwasanaethau ar ôl y Nadolig.

Oni bai fod newid sylweddol yn y sefyllfa ni fydd Clybiau Carco Bodringallt, Tonyrefail, Pontsionnorton, Llanharan, Heol y Celyn, na Llynyforwyn yn ail agor ar ôl Nadolig. Ymddiheuriadau i rieni sy'n dibynnu ar y gwasanaeth. Rwy eisoes yn gwybod am blant a fydd yn symud ysgol er mwyn cael ysgol lle mae Clwb Carco ar agor, ond dyna ni.

Hoffwn i ofyn i rieni, staff ac athrawon ysgolion eraill lle mae clybiau carco i nodi'r datblygiadau hyn yn fanwl iawn. Mae angen o leiaf 10 o blant yn talu prisiau llawn bob noson i gadw clwb ar agor. Edrychwch chi ar eich clybiau chi a chewch weld y gall fod mwy o glybiau yn cau yn y flwyddyn newydd.

Mae cais i mewn am arian i redeg cynlluniau chwarae yn ystod hanner tymor y gwanwyn ac os ydym yn llwyddo gyda'r cais bydd y cynlluniau chwarae ar agor fel arfer. Os nad ydym yn llwyddo ni fyddant ar agor ychwaith.

COLLED "CHAMPION" Y GYMRAEG YN RHONDDA CYNON TAF

Mae Dewi Jones nawr wedi ymddeol fel cyfarwyddwr yn gyfrifol am addysg yn Rhondda Cynon Taf ac mae'r Cyngor wedi colli eu "Champion" dros y Gymraeg o fewn y Cyngor ers Haf 2005. Nid ydy'r Cyngor wedi penodi olynydd hyd yma ac y maent wedi canslo pob cyfarfod o'r "Tasglu" sy'n gyfrifol am weinyddu cynllun iaith y Cyngor a rhoi arweiniad i swyddogion iaith y Cyngor. Y mae hyn yn siom fawr ac yn gwneud ein gwaith ni o fewn y Fenter yn anodd iawn heb son am waith y swyddogion o fewn y Cyngor. Mae'r gwaith yn parhau ac y mae adolygiad o Gynllun Iaith Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cael ei wneud ar hyn o bryd a bydd drafft yn cael ei gynnig i'r cyhoedd ystyried yn fuan iawn.

HYRWYDDO ADDYSG GYMRAEG

Mewn cydweithrediad gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg a nifer o bartneriaid eraill byddwn yn rhedeg ymgyrch i hyrwyddo addysg Gymraeg yn benodol yn ardaloedd Aberpennar, Cwm Cynon a Meisgyn, Taf-Elái lle bo cyfle i ni weld twf aruthrol yn y niferoedd yn manteisio ar addysg Gymraeg. Cafwyd llawer o ddiddordeb wrth i staff y Fenter ddosbarthu gwybodaeth tu allan i Tescos yn ddiweddar felly mae'n debyg y byddwn yn gwneud rhywbeth yn debyg nawr er bod gobaith gennym weld Martyn Geraint yn gwneud ambell i berfformiad hefyd.

BUSNES FEL ARFER GYDA'R CWLWM BUSNES

Er yr anawsterau, mae'r byd busnes yn parhau o dan ofal Rhys James ar 01685 882299 er taw dim ond un diwrnod yr wythnos y mae Rhys yn gweithio oherwydd nad oes cefnogaeth ariannol at y swydd ar hyn o bryd. Cafwyd sawl sesiwn ddiddorol ac y mae dwy arall i ddod yn fuan sef "Ariannu Mentrau Cymdeithasol" ar 31/01/06 a all fod yn ddefnyddiol iawn i'r Fenter a mentrau cymunedol eraill ac wedyn "Gwir flas Bwydydd Cymru" ar 28/02/06 pan fo disgwyl cael blasu nifer o fwydydd a diodydd diddorol!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

Steffan Webb
Prifweithredwr
Menter Iaith

Popwyr popty

Ar nos Fercher y 9fed o Dachwedd cafodd 50 o ddisgyblion Ysgol Rhydywaun a Rhydfelen y cyfle i brofi y sîn roc Gymraeg yn y Ffatri Bop, wrth i raglen Dolig "Popty" gael ei ffilmio. Gwelwyd y disgyblion yn dawnsio i Elin Fflur, Mattoidz, Rebecca Trahern a Tara Bethan i enwi ond ychydig. Cafodd rhai y cyfle i brofi pum munud o enwogrwydd wrth iddynt adrodd eu jôcs a straeon doniol i'r camera. Felly cofiwch wylio fore Dolig! Yn bennaf oll roedd yn ddigwyddiad llawn hwyl a sbri sydd yn bendant wedi ein paratoi at hwyl gŵyl y Nadolig !!!

Cwis Nadolig Ieuenctid Ail Iaith

Yng Nghanolfan yr Urdd
Dydd Mawrth 8/12/05
7.00pm
£2.00 y pen
Hyd at 5 person mewn tîm
Lluniaeth ysgafn
Gwobrau o fri!!!!

Gwyl Nadolig CIC

Rhagfyr 14 — Ysgol Rhydywaun (Blwyddyn 7,8,9) — 4.00pm-6.00pm

Yn Cyflwyno:

'Naked Threat'

(yn perfformio caneuon Stereophonics, Greenday...)

Cyfle i yrru y carw gwyllt!,
G.t.f.m yn darlledu
Yfed coctêl's blasus,
a mwynhau y disgo

MYNEDIAD £4

Noddwyd gan -

Os am fwy o fanylion neu gwynion, cysylltwch â CIC ar; 01685882299, neu pencadlys Menter Iaith ar; 01443226386

Menter Iaith Sadwrn Siarad i Oedolion

Ym Mhrifysgol Morgannwg ar 28 Ionawr 2006 am 9.30am tan 4.00pm.

Safon 1, 2 a 3 a Defnyddio'r Gymraeg

Gwersi a Choffi a Chinio £10

Am rhagor o fanylion cysylltwch â Leah ar 01685 877183 neu leahcoles@menteriaith.org

Am wybodaeth bellach ffoniwch Swyddfa Menter Iaith Rhondda Cynon Taf Aberdar 01685 877183.

Cronfa Banciau i Ddysgwyr y Gymraeg

Rydym wedi bod yn ffodus i dderbyn grant gan Banc HSBC ac felly hysbysebwn fod Cronfa Banciau i Ddysgwyr y Gymraeg, Menter Iaith unwaith eto ar agor.

I dderbyn ffurflen gais, neu fanylion pellach, ffoniwch Leah Coles, Swyddfa Menter Iaith Rhondda Cynon Taf 01685 877183 neu e-bostiwch leahcoles@menteriaith.org.
Dyddiad cau yw
17 Rhagfyr 2005

Cronfa Grantiau Bach, Cymunedau yn Gyntaf, Menter Iaith

Os ydych yn fudiad sydd yn bodoli a gweithio ac yn fuddiol i drigolion Cymunedau yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf ac angen arian - hyd at £300, ffoniwch Leah Coles am ffurflen gais 01685 877183 neu leahcoles@menteriaith.org.
Dyddiad cau yw
Rhagfyr 17 2005 felly -

Y Cyntaf i'r Felin Caiff Falu

FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws

100 O SWYDDI ERBYN NADOLIG
Mae cwmni GMAC, sy'n cynnig cyngor ariannol i yrwyr, yn creu 100 o swyddi erbyn diwedd y flwyddyn. Ym Mharc Nantgarw y mae'r pencadlys Prydeinig lle bydd cyfanswm y staff yn codi i 270.

"Ers i ni ddod i Gymru mae'r gweithwyr medrus a brwdfrydig wedi creu argraff arnon ni," meddai Theo Kortland, rheolwr gyfarwyddwr gwledydd Prydain. "Ry'n ni'n awyddus bob tro i hybu doniau ac annog ein staff i lwyddo."

Dywedodd fod swyddfeydd mewn 42 o wledydd ac i'r cwmni gynghori 150m o yrwyr drwy'r byd.

DYSGU GWERSI?
Er gwaetha gwrthwynebiad cryf, mae Cabinet Cyngor Rhondda Cynon Taf am gyhoeddi Hysbysiad Cau Swyddogol yn achos Ysgol Blant Bach Nantgarw.

Mewn cyfarfod arbennig yn Aberdâr roedd y Cynghorydd Adrian Hobson a'r Athro David Brooksbank wedi cyfeirio at waith ardderchog y brifathrawes a'i staff, yr adroddiadau arolwg ffafriol, a chyfraniad yr ysgol at y gymuned.

Dywedodd y ddau i nifer fawr o lythyrau cefnogi gael eu derbyn ond dywedodd y cyngor ei fod am fwrw ymlaen â'r cynllun i gau'r ysgol.

TAITH UN-FFORDD?
Beth oedd yr hysbyseb ar y teledu? Ie, 'na fe, gadewch i'r trên lacio'r pwysau. Meddyliais am y geiriau doeth wrth deithio un noson yn ôl o Lundain ar drên hwyr, unwaith eto. Wynebau sur yn darllen newyddion surach.

Cyn cyrraedd Swindon clywyd llais yn rasio fel y trên, yn esbonio'r oedi, tagfa, bai ar signalau, problemau technegol, ond dim sôn am ddail ar y cledrau.

Cyn cyrraedd Bryste llais gwahanol, mwy cyfeillgar. "Fy enw i yw Gary a fi yw eich rheolwr trên. Os oes gennych chi unrhyw unrhyw gwestiynau, peidiwch ag oedi. Cysylltwch â fi ar unwaith."

Ni chlywyd y llais eto, ni chafodd Gary ei weld ar dir y byw. A dweud y gwir, roedd yr holl beth fel taith un-ffordd.

UN O'R BRODYR ENWOG YN MARW
Bu farw un o'r brodyr Williams, Vaughan, wedi salwch byr. Rydym yn cydymdeimlo â'i wraig Marj, ei fab Huw, a'r brodyr Bleddyn, Bryn, Lloyd, Cenydd a Tony a'i chwiorydd Dilys, Edith, Joan, a Mair.

Yn Amlosgfa Bryndrain y bu'r angladd ar Dachwedd 3 a Ficer Tongwynlais, y Parchedig John Payne, yn gweinyddu.

Vaughan oedd cadeirydd Clwb Rygbi Ffynnon Taf am dair blynedd ac yn 1960-61 chwareodd yn y tîm a enillodd bob gêm.

SYLWADAU ANAMSEROL
Mae colofn yn *The Times* o'r enw Golwg ar y Tywydd gan Paul Simons sy'n dweud pa mor anarferol oedd mis Tachwedd.

Ystyriwch y ffeithiau. Y gwres ar ddechrau'r mis mor annisgwyl nes i flodau flodeuo, nes i goed ballu gollwng eu dail, nes i anifeiliaid ddrysu am na allen nhw benderfynu gaeafu neu beidio. A'r rheswm? Llif awyr o'r de, o ogledd Affrica a'r Ynysoedd Dedwydd.

Erbyn diwedd y mis, wrth i'r papur hwn fynd i'w wely, roedd y gwynt o'r Arctig, weithiau o Begwn y Gogledd.

Mis anarferol, mis oedd yn profi pa mor anodd yw esbonio tymhorau i blant.

GWAHARDD RHAG GYRRU
Yn Llys Ynadon Pontypridd cafodd dyn o Ffynnon Taf ei wahardd rhag gyrru am ddau fis am iddo yrru heb drwydded ac yswiriant.

Mark Bowden, 43 oed o Dŷ Rhiw, oedd yn y llys a bu raid iddo dalu dirwy o £200 a chostau o £50.

CYRRAEDD Y COPA
Llongyfarchiadau i'r Cymro a deithiodd wyth awr cyn dringo miloedd o droedfeddi i gasglu sbwriel ar fynydd ucha Prydain, Ben Nevis.

Ond rhan fach o'i ymgyrch fu'r gamp ddiweddara. Bob bore ar doriad gwawr mae'r cyn-weithiwr cymdeithasol 60 oed yn cyflawni dyletswydd gymdeithasol arall, yn casglu sbwriel ar hewlydd ei dre enedigol, Llanwrtyd.

Doedd y pwt yn yr *Independent* ddim yn esbonio beth oedd yn gyrru Mr Kevan ond efallai fod cliw yn ei enw cynta. Robin.

Y DDIOD FELLTITH
Yn Llys Ynadon Pontypridd cafodd dyn o Ffynnon Taf ei wahardd rhag gyrru am flwyddyn am iddo yrru o dan ddylanwad alcohol.

Clywodd y llys fod 43 o feicrogramau o alcohol mewn 100 o fililitrau o ana'l a bu raid i David Underwood, 40 oed o Heol Caerdydd, dalu diwy o £200 a chostau o £55.

WRTH I'R LLENNI GAU
Wrth fynd yn henach, mae rhywun yn meddwl am hyn yn fwy.

Ar un adeg emynau oedd ymhob angladd ac un o'r ffefrynnau oedd Bryniau Caersalem. Mae'n ymddangos fod yr oes yn newid os yw arolwg yn wir – trefnwyr angladdau'r Co-op yn Abertawe sy'n dweud taw miwsig yr Ugain Uchaf yw ceisiadau "mwy na 40% o angladdau'r ddinas". Y ffefryn, medd y cwmni, yw cân Frank Sinatra, *My Way*.

Alla i ond siarad o brofiad. Efallai fy mod yn hen-ffasiwn ond dyw angladd ddim yn angladd heb emynau er rwy'n cyfadde y gall miwsig o fath arall fod yn addas. Yr un mwya ysgytwol oedd gwasanaeth cyn-ddirprwy brif ofalwr Amgueddfa Werin Cymru – solo opera, llais Pavarotti'n cyfleu colled wrth i'r arch gael ei hebrwng i mewn i'r capel.

A'r un mwya afreal oedd gwasanaeth yn Amlosgfa Treforys, angladd lle clywyd y gân *I'm in the Mood* wrth i'r llenni gau.

DIGWYDDIADAU
CAPEL BETHLEHEM, Gwaelod-y-garth, 10.30am. Rhagfyr 4: Y Gweinidog, Oedfa Gymun; Rhagfyr 11: Cartre'r Henoed; Rhagfyr 18: Y Gweinidog; Rhagfyr 25: Y Gweinidog.

CYNGERDD CATRIN FINCH, Capel Bethlehem, Rhagfyr 7, mwy o fanylion ar 08706 131812.

CYLCH MEITHRIN Ffynnon Taf, 9.30-12, dydd Llun tan ddydd Gwener. Taliadau: £4.75 y sesiwn. Ti a Fi, 1.15-2.30 bob dydd Mawrth. Taliadau: £1.50 y sesiwn.

CYMDEITHAS ARDDWROL
Ffynnon Taf a'r Cylch: ddydd Mawrth cynta'r mis, Clwb Cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog, Glan-y-Llyn. Manylion oddi wrth Mrs Toghill, 029 20 810241.

GWERSI CYMRAEG, Llyfrgell Ffynnon Taf, nos Lun, o Fedi 19 ymlaen, 6.30-8.30.

YSGOL PONT SIÔN NORTON

Dymuniadau Gorau
Dymuniadau gorau i Mrs Angharad Williams a Mrs Lowri Harris sy'n ein gadael ar Ragfyr 2ail i ddechrau eu cyfnod mamolaeth. Croesawn Miss Bethan Davies a Mr David Lewis i'n plith yn ystod y cyfnod yma.

Ymweliadau Addysgol
Bu llawer o ddosbarthiadau cyfnod allweddol 2 ar ymweliadau diddorol yn ystod yr wythnosau diwethaf:
Blwyddyn 4 a 5 - Tesco - i ddysgu pobi bara
Blwyddyn 4 a 5 - Trip hanes i Lancaiach Fawr
Blwyddyn 5 a 6 - Hyder – gwaith trin dŵr
Blwyddyn 5 - Crochendy Nantgarw – gweithdy oes Fictoria
Blwyddyn 6 - Neuadd Dewi Sant – rhaglen 'Making Tracks'
Gwahoddwyd Blwyddyn 6 i fod yn rhan o gynulleidfa'r rhaglen yma a ddarlledir ar Radio 3.

Cyngherddau Nadolig
Cynhelir ein cyngherddau Nadolig eleni ar Ragfyr 5ed, 6ed ac 8fed:
Rhagfyr 5ed Cyngerdd Meithrin/ Derbyn - 10:00 y bore (Capel Coedpenmaen)
Rhagfyr 6ed Cyngerdd Blwyddyn 1 a 2 – 1:30 pm a 6:00 pm (Capel Coedpenmaen)
Rhagfyr 8fed Sioe Nadolig yr Adran Iau – 6:30 pm (Ysgol Gyfun Rhydfelen)

Chwaraeon
Pêl-rwyd
Tîm 'A' Ysgol Evan James 7 v Pont Siôn Norton 5
Tîm 'B' Ysgol Evan James 1 v Pont Siôn Norton 2
Chwaraewyd gêm bêl-droed gyfeillgar hefyd rhwng Ysgol Evan James ac Ysgol Pont Siôn Norton.

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Betsi Griffiths

CROESO ADRE
Croeso adre a dymuniadau gorau am wellhad buan i Gareth Walters sydd wedi bod yn yr ysbyty ar ôl torri ei goes yn chwarae rygbi . Gobeithio y bydd nôl yn chwarae cyn bo hir iawn.

DOSBARTH CWILTIO
Mae wedi bod yn amser trist i'r dosbarth gan iddynt golli dwy aelod yn ystod yr un wythnos. Bu farw Mrs Annie Jenkins yn 96oed (bron yn 97).Syrthiodd yn ei chartref wedi'r Nadolig llynedd ac ar ôl dod adre o' r ysbyty aeth i fyw gyda'i merch Annette er mwyn cryfhau. Roedd yn gobeithio dod 'nôl i'w chartref a daeth yno ar ymweliad rhyw wythnos neu ddwy cyn ei marwolaeth. Cynhaliwyd y Gwasanaeth Angladdol yn Eglwys Sant Barnabas lle'r oedd yn aelod, ac fe'i claddwyd ym mynwent Llandyfodwg. Cydymdeimlwn a'i phlant Myrtle, Vincent ac Annette a'u teuluoedd. Roedd Mrs Jenkins yn aelod o'r dosbarth cwiltio ers y tridegau ac roedd yn un o hyfforddwyr y dosbarth presennol.
Wedi salwch bu farw Mrs Tydfil Parry, Brynawelon Glamorgan Tce. Bydd pobl Treorci yn ei chofio yn cadw siop cig moch Danaidd gyda'i gwr Derrek. Wedi iddynt ymddeol aeth Derrek yn sâl a gofalodd Tydfil amdano am 17 o flynyddoedd nes iddo farw ddwy flynedd yn ôl. Roedd Tydfil yn aelod o Ddosbarth Cymraeg Calfaria hefyd. Roedd yr angladd yn Amlosgfa Llangrallo. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei meibion Michael a Steven a'u teuluoedd a hefyd ei chwiorydd Tegwen a Geunor.

AR Y TELEDU
Bu aelod o ddosbarth Cymraeg Calfaria ar y teledu yn ddiweddar. Roedd Mr Wyndham James gyda'r aelod Seneddol Huw Irranca Davies o flaen Cofgolofn y Glowyr yn son am y gwaith yn y pwll glo ers llawer dydd ac adroddodd Wyndham ddarn o farddoniaeth a gyfansoddodd. Waterfront ar HTV oedd y rhaglen. Llongyfarchiadau Wyndham.

OPERATION CHRISTMAS CHILD
Bu sawl mudiad yn cynnwys Undeb y Mamau Eglwys Sant Barnabas a Guild y Merched Garden Village yn paratoi parseli i'w hanfon at blant sy'n byw mewn tlodi mawr mewn gwledydd tlawd. Elusen o Wrecsam yw "Operation Christmas Child" sy'n anfon parseli at blant na fyddent yn derbyn parsel fel arall. Mae dros 150 o barseli a mwy na £100 mewn cyfraniadau wedi mynd o'r Gilfach i'r Ganolfan yn Tonysguboriau.

Y GANOLFAN HAMDDEN
Mae nhw'n brysur fel arfer yn y Ganolfan Hamdden yn Hendreforgan. Cynhaliwyd Cynllun Chwarae llwyddiannus iawn dros hanner tymor ac Dydd Mawrth Tachwedd 15ed aeth Criw o'r Gilfach i lansiad eu C.D. "Yma i Helpu" mewn seremoni gydag Achub y Plant ym Mharc Treftadaeth y Rhondda. Mwynhaodd pawb eu hunain yn fawr iawn. Llongyfarchiadau Criw Gilfach
Cynhelir Cwrs 'Hel Achau' yn ystafell y cyfrifiaduron bob nos Iau o 5 o' r gloch tan 7 o'r gloch. Croeso i bawb i ddysgu sut i ddefnyddio'r We i gael gwybodaeth am eu teuluoedd.

GWASANAETH NADOLIG
Cynhelir Gwasanaeth Carolau blynyddol Capel Moreia Nos Sul Rhagfyr 11eg am 6 o'r gloch Croeso cynnes i bawb.

Derbynnir cefnogaeth ariannol i'r cyhoeddiad hwn gan

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

a Llywodraeth Cynulliad Cymru

www.mentercaerdydd.org
029 20565658

Beirdd mewn Bar

Roedd y Duke of Clarence dan ei sang Nos Wener, Tachwedd y 4ydd, a phawb wrth eu bodd yng nghwmni'r Taeogion. Yn ogystal â gwrando ar gerddi'r beirdd dawnus, bu'r gynulleidfa'n brysur yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth limrig – llongyfarchiadau mawr i'r limrigwr buddugol - Morgan Hopkins o Dreganna .

Unwaith eto eleni, bydd Menter Caerdydd yn cynnal nosweithiau o ganu carolau Cymraeg yng Ngŵyl Aeaf Caerdydd eleni. Fe fydd y corau yn canu rhwng 7.30yh a 9yh ger yr iâ. Dewch draw i fwynhau'r awyrgylch nadoligaidd!!

Dyma'r dyddiadau:
Nos Iau, 1 Rhagfyr: Côr Godre'r Garth
Nos Iau, 8 Rhagfyr:
Ysgol Gyfun Plasmawr
Nos Lun, 12 Rhagfyr: Côr Canna
Nos Lun, 19 Rhagfyr: Côr CF1

Safle newydd i'r Cynlluniau Gofal

Yn 2006 fe fydd y Fenter yn cynnig Cynlluniau Gofal Gwyliau mewn tri safle. Fe fydd Ysgol Melin Gruffydd yn yr Eglwys Newydd ar gael i ni o hanner tymor mis Chwefror ymlaen. Mae hyn yn newyddion gwych ac yn golygu bydd y Fenter yn medru darparu'r gwasanaethau gwyliau i fwy o blant y ddinas. Fe fydd Ysgol Melin Gruffydd felly yn gwasanaethu plant yng Ngogledd y ddinas, tra bod Ysgol Treganna yn y Gorllewin ac Ysgol y Berllan Deg yn gwasanaethu ardaloedd dwyreiniol y ddinas.

Roedd y gwin yn llifo yn Noson Blasu Gwin y Fenter yn Le Gallois Nos Lun, Tachwedd y 14eg. Diolch i Francis, Elen a Johanna am noson wych!

Mae'r delynores byd enwog, Catrin Finch, yn rhyddhau Albwm newydd i gyd-fynd â thaith o gyngherddau yng Nghymru.

Mae'r CD newydd yn recordiad o berfformiadau byw Catrin nad ydynt wedi eu recordio o'r blaen yn cynnwys Toccata and Fugue yn D leiaf gan Bach, Ffantasi Salzedo ar Granada gan Lara a'r Bygs! a welwyd ar S4C o'r Eisteddfod Genedlaethol eleni. Mae'r darnau wedi eu recordio mewn cyngherddau mewn eglwysi, capeli ac eglwysi cadeiriol ar draws Gymru.

Meddai Catrin: "Does dim byd fel y peth go iawn. Roeddwn am gynhyrchu CD oedd yn wirioneddol fyw - dydi o ddim yn bosib cyfleu'r adrenalin, cynnwrf ag awyrgylch y gynulleidfa mewn stiwdio sych."

I lansio ei CD bydd Catrin yn cynnal cyngherddau yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod y Garth ar 7 Rhagfyr, Aberaeron ar 9 Rhagfyr a Rhuthun ar 11 Rhagfyr.

CLWB DRINGO NEWYDD

Cwrs 12 wythnos
Bob Nos Iau
Ysgol Gyfun Plasmawr

Cychwyn
Nos Iau, Ionawr y 12fed

4.30-5.30 – Blwyddyn 5 a 6
5.30-6.30 – Blwyddyn 7 ag 8

Cost y cwrs £54
Nid oes angen profiad dringo.
Rhedir y clwb gan staff profiadol a chymwys.
Cysylltwch ag Angharad am wybodaeth neu ffurflen gofrestru.

NADOLIG LLAWEN
a
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth bawb yn swyddfa
MENTER CAERDYDD

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

ADREF O'R YSBYTY.
Gwellhad buan i Mr John Hunt, Heol y Gilfach, Tonyrefail sydd wedi bod o dan driniaeth llawfeddygol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg Ynysmaerdy. Mae wedi dod adre ag yn dilyn cynghorion y meddygon i barhau i wella yn iawn, a bydd ei wraig Myfanwy a'i ferch Siân sydd yn feddyg teulu yn gofalu ei fod yn cadw at y rheolau. Mae wedi diodde gyda'i gefn ac mae yn falch o'r rhyddhad o'r boen mae wedi dioddef. Pob bendith iddo.

COLLI BOB.
Ar ddydd Mawrth yr 8fed o Dachwedd bu farw Mr Bob May yn 84 oed, ar ôl cystudd hir a phoenus yn yr Ysbyty. Geidw wraig Vera ond nid oes plant i'r briodas. Ro'n ni wedi dod i'w adnabod yn dda drwy fynychu Y Ganolfan Ddyddiol, San Siôr, Tonyrefail amser cinio, a rhoi'r byd yn ei le.

Brodor o Gaerloyw oedd Bob ond wedi byw yn Llundain ers cyn yr ail Ryfel byd, a chwrdd â'i gymar yno. Gyrrwr trenau oedd wrth ei alwedigaeth ac wedi gyrru trenau o bob math yn fawr a bach, ac wedi gweld newidiadau mawr yn bennaf o oes y stem i oes y diesel. Ro'wn yn hoffi gwrando ar ei straeon ac roedd yn un da i'w hadrodd. Roedd Vera hefyd yn gweithio yn swyddfeydd y rheilffyrdd felly dyma lle cyfarfu'r ddau. Mae'r cwestiwn yn codi sut y daethant i Donyrefail. Ar ôl ymddeol daethant i'r Ton a sefydlu yn gartrefol yn Parklands Crescent.

Bu'r angladd ar brynhawn Iau y 16eg o Dachwedd yn amlosgfa Llangrallo "Coychurch".

Gwasanaethwyd gan Vicer Dewi Sant Y Parchedig Ruth Moverley, ac adroddwyd hanes y teulu gan Mr Steve Vargus swyddog yn Dewi Sant. Darllenodd Vera ddarn o farddoniaeth er cof am Bob.

Coffa da am Bob. Byddwn yn gweld ei eisiau yn fawr iawn yn San Siôr yn enwedig. Rwyn siŵr cawn gwmni Vera eto yn y dyfodol agos.

Difrod i Gapel y Ton

CAPEL Y TON.
Mae bron i dair blynedd ers y dadgorfforwyd Capel Y Ton Tonyrefail, ac mae wedi bod yn wag ers hynny. Yn ystod yr wythnosau neu fisoedd diwethaf mae rhywrai anghyfrifol wedi torri i mewn ac wedi fandaleiddio'r lle yn ofnadwy. Pwy yn ei lawn synnwyr fydde yn gwneud y fath beth?

Mae Capel Y Ton yn un o sefydliadau hanesyddol y Ton ag yn un o achosion hynaf y Methodistiaid a diolch i deulu'r Prichards Collena am eu rhan blaenllaw yn sefydlu'r achos, a rhoi'r tir i adeiladu'r capel. Un arall o'r bobl amlwg oedd yr Hybarch William Evans a wasanaethodd yr achos yn rhad ac am ddim. Mae ei feddrod tu allan i ddrws y capel.

Tybed a oes yna gydwybod yn perthyn i'r rhai a wnaeth y difrod erchyll hwn?

BETHLEHEM CWMLAI.
Mae cynlluniau mawr ar waith ym Methlehem ar hyn o bryd. Maent am ymestyn yr adeilad er mwyn cael lle ychwanegol at gyfer Ysgol Sul a gweithgareddau yn ystod yr wythnos i dynnu plant i mewn o'r ffyrdd. Mae yna broblemau yn codi yn wastad a diwedd y gan yw'r geiniog. Rhaid codi het iddynt ym - Methlehem maent wedi mentro o'r blaen ac wedi llwyddo.

Mae gweithgareddau ymlaen i godi pres, a chafwyd noson lawen lwyddiannus nos Sadwrn y 19eg Tachwedd. Codwyd tipyn o arian ar y noson. Pob llwyddiant iddynt.

Cerddi'r Cymoedd



Cymoedd diwydiannol y de-ddwyrain yn cynnwys Rhondda Fawr, Rhondda Fach, Cynon, Merthyr, Rhymni, Ebwy a Sirhywi yw testun y flodeugerdd ddiweddaraf i'w chyhoeddi yng nghyfres boblogaidd *Cerddi Fan Hyn*.

Bydd *Cerddi'r Cymoedd* yn cael ei lansio yng ngwesty Parc Treftadaeth y Rhondda, Trehafod ger Pontypridd nos Iau, 8 Rhagfyr am 7 o'r gloch, yng nghwmni'r golygydd a rhai o feirdd y gyfrol.

Manon Rhys, un o lenorion mwyaf blaenllaw Cymru, yw golygydd y gyfrol. Fel un a aned yn Nhrealaw, Cwm Rhondda ac yn ferch i J. Kitchener Davies, roedd hi'n ddewis naturiol ar gyfer casglu ynghyd cant o gerddi am yr ardal. Mae'n sgriptwraig, yn gyd-olygydd y cylchgrawn llenyddol *Taliesin*, ac yn ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Mae hefyd yn awdur saith o nofelau – y diweddaraf yw *Rara Avis* , hanes magwraeth anarferol merch fach yn y Cymoedd yn y 1950au.

Pontio tri chyfnod a wna'r gyfrol *Cerddi'r Cymoedd*: y blynyddoedd cyn-ddiwydiannol, rhaib diwydiant a chyfnod presennol 'Y Chwyldro Gwyrdd', chwedl Rhydwen. Fel y dywed y golygydd, dyma gymoedd y tlodi a'r caledi yn llaw'r meistri glo a haearn; cymoedd y stoiciaeth yn wyneb anghyfiawnder; cymoedd y meithrin ymwybyddiaeth wleidyddol a'r frwydr gynyddol dros gyfiawnder.

Cerddi'r Cymoedd
Golygydd: Manon Rhys
Golygydd y gyfres: R. Arwel Jones
Gwasg Gomer £6.95

CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Nia Williams

Priodas
Llongyfarchiadau i Alistair MacDonald a Sarah briododd yn Eglwys St Bridget's, St Brides ger Brynbuga ychydig yn ôl. Priodas hyfryd – diwrnod bendigedig – a sioe ffasiwn heb ei hail! Pob dymuniad da i'r dyfodol eich dau.

Fel yr addewais yn y rhifyn blaenorol – stori gwerth aros amdani – o lygad y ffynnon!

Hanes taith y Clements i Seland Newydd

Dechreuodd ein taith yn Singapore – lle prysur iawn ond cyffrous o ran naws a diwylliant. Chinatown yn ddiddorol iawn gyda'i siopau meddygol yn gwerthu pob math o bethau rhyfedd mewn jariau. Gwnaeth Ella a Megan fwynhau y Safari nos y gwnaethom yno, lle roedd yr anifeiliaid y tu ôl i ffensys bregus iawn neu haen o wydr cryf arbennig gyda goleuadau yn arddangos yr anifeiliaid mewn ffordd naturiol iawn. Gwelwyd sawl teml 'Sichaidd' prydferth iawn yn little India.

Ar ôl Singapore hedfanom i aros gyda ffrindiau yn Sydney. Gwnaeth Phil a finnau gerdded Pont yr Harbwr wrth i'r haul fachlud. Syniad Phil - mae e'n un rhamantus iawn. Mae e jest yn lwcus nad oes ofn uchder mawr arna i - dim ond i mi gael fy nhraed ar rywbeth solet! Roedd yn brofiad gwych ac roedd y golygfeydd o'r top yn anhygoel - edrych lawr ar y Tŷ Opera. Wedi hyn aethom i gael pryd o fwyd mewn bwyty pysgod arbennig iawn mewn ardal o'r



enw Creigiau - neu the Rocks, yn edrych dros yr harbwr a'r Tŷ Opera wedi ei oleuo, gyda'r nod o ddathlu dringo dros y bont enwog.

Arhosom ar 'Houseboat' ein ffrindiau ar yr afon Hawksbury a nofio yn y dŵr heb yn wybod ei bod hi'n dymor lle mae'r siarcod hefyd yn hoffi dod yno i fwynhau yr adeg yma o'r flwyddyn! Roedd hyn yn egluro pam bod Bill ein ffrind ddim ond lan at ei bigyrnau yn y dŵr tra ein bod ninnau a'r pedwar o blant yn mwynhau nofio yn y dŵr!

Wedi Sydney gwnaethom logi car a theithio lan y Golden Coast i Brisbane i aros gyda ffrindiau coleg i ni. Handi iawn cael ffrindiau a theulu mewn gwledydd diddorol. Aethom ar daith i fyny'r afon o ganol y ddinas - sydd gyda llaw â thraeth wedi ei adeiladu gan ddyn, gyda 'life-guards' yn gwylio allan am unrhyw un mewn trafferth, ond dim siarcod y tro hwn! - i edrych am Koalas. Fe welwch lun o Megan yn cwtshio un ohonynt! Maent yn eitha trwm ac yn drewi felly doedd Ella ddim mor barod i'w dal o gwbwl!

Yna wedi tair wythnos i ffwrdd cyrraedd Seland Newydd. Prif amcan y daith oedd cwrdd â nifer o aelodau'r teulu - ac nid fel pawb arall i ddilyn y Llewod er bod hyn yn amserol iawn. Gwnaeth brawd Mam, sef Wncwl Emrys a'i wraig Haulwen gyda'i mab Allan - 11 mlwydd oed ar y pryd - fynd allan i Seland Newydd yn 1953. Roedd brawd Mam-gu wedi mynd allan yno i wneud ei ffortiwn meddai fo yn y 30au ac fe agorodd bwll glo yno y tu allan i Greymouth ar ynys y De. Perswadiodd fy Wncwl a'r teulu bach i'w ddilyn.

Roedd yn hyfryd dal lan â hen hanesion y teulu ac i siarad rygbi wrth gwrs – mae Wncwl Em yn enwog yn nhre'r Sosban am sgorio yr unig gais yn erbyn y Crysau Duon ar Barc y Strade, Llanelli yn 1935 pan ddaeth y Crysau Duon draw i Gymru. Dyma'r unig gêm yr aeth fy Mam-gu i weld ei mab yn chwarae ynddi oherwydd roedd yn poeni'n fawr amdano rhag ofn iddo gael ei anafu gan y chwaraewyr mawr a brwnt roedd wedi clywed amdanynt!

Mae Seland Newydd yn wlad brydferth iawn ac mi welwyd llawer o ryfeddodau wrth i ni deithio o gwmpas. Hedfanom dros Mt Cook mewn awyren ysgafn a glanio ar y Tasman Glacier i gael taflu peli eira yn yr haul cynnes ar gopa mynydd uchaf Seland Newydd - 12,500 tr.

Aethom i ferlota lan yn Glenorki sydd ddim yn bell o Queenstown neu Middle Earth os ydych yn ffans o 'The Lord of the Rings'. Cerddom ar ddau glacier arall tra ar Ynys y De sef y Fox Glacier a Franz Joseph – anhygoel o brydferth. Hedfanodd Phil yn ôl ar ôl pythefnos yn Seland Newydd ac mi es i a'r merched i aros yn Greymouth gyda fy Wncwl a'm Modryb. Aeth y merched i'r ysgol yno am bum wythnos ac mae ganddynt nifer o ffrindiau post yno erbyn hyn. Bu Ella bron ag ennill cystadleuaeth traws-gwlad yn yr ysgol ac roeddwn yn falch bod y Cymry wedi gadael eu marc ar ysgol Greymouth er nad oedd y Llewod wedi gallu gwneud cystal! Fel dywedodd un o'r tadau - 'I didn't think anyone could drown out the Kiwis!'. Roeddwn y tu ôl i'r camcorder ar y pryd yn gweiddi i annog Ella - ond wrth iddi ddod o'r tu ôl a mynd heibio i'r holl blant dechreuais weiddi yn uwch ac mae tipyn o camera shake ar y ffilm! Cawsom dipyn o sbort yno ac mi wnes i a'r merched ffrindiau da iawn. Roedd pawb mor gyfeillgar a chefnogol yr holl amser y buom allan yno. Dathlodd Wncwl Em ei ben-blwydd yn 92 tra roeddem ni yno.

Ar ôl pum wythnos yn Greymouth roedd yn amser i fynd draw at fy nghefnder yn Kaikoura am weddill y daith. Buom yn byw ar Vingord yno - Springbore Estate - am 8 wythnos - hyfryd!

Aeth y plant i ysgol fach arall - dim ond 35 o ddisgyblion oedd yno i gyd. Naws gartrefol iawn ac mi aeth Ella a Meg â llyfrau hanes Cymru i'w rhoi iddynt. Gwnaeth y merched gyflwyno dwy het Gymreig wnaeth Mam - i gyfeilyddes ac arweinyddes Côr Meibion Seland Newydd mewn cyngerdd enfawr yn Ashburton cyn iddynt ymadael am Gymru i gystadlu yn Llangollen - (lle ddaethon nhw yn bumed gyda llaw). Mae Nwncwl Allan - sef cefnder Nia - yn aelod o'r côr ac fe wnaeth Nia ei helpu gyda'i eiriau Cymraeg ar gyfer y gystadleuaeth. Cafwyd gwledd o bice ar y maen a bara

⇒

Y Clements yn Seland Newydd

Dathlu pen-blwydd Wncwl Em

brith ar ôl y gyngerdd - gan Nia. Roedd rhaid teithio pedair awr a hanner ar draws y Southern Alps a'r holl fwyd yna mewn bocsys yn y bŵt ar gyfer y cyngerdd.

Hedfanodd y merched a finne i Fiji am wythnos o dywydd cynnes. Pobl ffantastig eto. Snorclo ar y Reef – gweld llawer o clown fish. Aethom i ynys y Gogledd – i Rotorua i weld y Maoris ac hefyd i'r 'Bay of Islands' a mynd drwy'r 'Twll yn y Graig' enwog. Aethom i wylio morfilod yn Kaikoura a gweld pod o ddolffiniaid – tua 300 ohonynt!

Wedi pedwar mis yn Seland Newydd roedd hi braidd yn drist ac emosiynol ffarwelio â'r teulu a'n ffrindiau newydd. Ond roeddem yn edrych ymlaen at weld Dad yn Brisbane ar y ffordd adre.

Aethom am wyliau bach arall i Port Douglas ar y Barrier Reef. Snorclo eto gyda physgod anhygoel a gweld y coral lliwgar. Gwelsom pum crocodeil yn y gwyllt.

Gwelwyd llawer ar y daith hon – a gallwn ond edrych ymlaen at ei gwneud rhywbryd eto yn y dyfodol ar ôl ennill ychydig mwy o bres!

N.C.

ATEBION CROESAIR MIS TACHWEDD

	C		LL		A		M		A		G	
M	Y	N	W	E	N	T	A		R	W	A	N
	FF		Y		A		E		G		S	
C	R	W	B	A	N		B	R	A	C	T	Y
	E		R		T		R		I			
E	D	N	O	G		S	A	E	S	N	E	S
	I				C		N				B	
Y	N	F	W	G	A	C		Y	N	D	A	N
			E		N		I		I		R	
P	L	O	R	Y	N		F	I	N	E	G	R
	O		M		W		R		N		O	
T	R	I	W		Y	R	A	LL	A	N	F	A
	I		D		LL		N		U		I	

cymdeithas yr iaith gymraeg
PRIF SWYDDFA • LLAWR GWAELOD • PEN ROC • RHODFA'R MÔR • ABERYSTWYTH • CEREDIGION • SY23 2AZ
FFÔN (01970) 624501 • FFACS (01970) 627122
E-BOST swyddfa@cymdeithas.com • Y WE www.cymdeithas.com

Annwyl Olygydd

Mae'n hollol amlwg bod Deddf Iaith wamal 1993 wedi hen golli ei phlwc ond mae Rhodri Morgan yn mynnu nad oes unrhyw angen i' w hadolygu. Pan gafodd y ddeddf honno ei phasio yn San Steffan fe wrthododd bleidleisio o'i phlaid gan ddatgan y gobeithia cael y cyfle i wneud y gwaith yn iawn pan fyddant yn ffurfio Llywodraeth.

Er ei fod wedi bod mewn grym ers dros bum mlynedd ac wedi cael hen ddigon o gyfle i wireddu ei addewid, mae Prif Weinidog Cymru wedi datgan nad ydi o am weithredu yr hyn addawodd yn 1993. Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, felly, yn galw arno i ymddiswyddo am iddo dorri ei air ac am gamarwain cyhoedd Cymru gan ennill pleidleisiau ar addewidion gwag.

Mae'r Gymdeithas yn gweithredu yn uniongyrchol gan nad oes gennym ni unrhyw ddewis arall. Yn gynharach eleni cafwyd trafodaethau rhyngom ni ac Alun Pugh, Gweinidog Iaith Llywodraeth Cynulliad Cymru, a wnaeth yn glir nad oedd unrhyw fwriad i adolygu'r ddeddf bresennol.

Dro ar ôl tro, mae'r Llywodraeth wedi honni fod y ddeddf bresennol yn un ddigonol gan ategu bod "..rhaid dal ati i geisio perswadio cwmnïau a chyrff i gydnabod y Gymraeg." Serch hynny mae hi'n hollol amlwg i bawb arall na ellir dibynnu ar ewyllys da pob cwmni preifat i ddarparu gwasanaethau dwyieithog.

Dyw cwmniau preifat, fel Orange, ddim yn dod o dan ambarél gyfyng y ddeddf. Mae hyd yn oed cyrff cyhoeddus fel Cyngor Caerdydd - sydd yn dod o dan yr ambarél honno - yn anwybyddu eu cynlluniau iaith, a hynny heb orfod wynebu unrhyw oblygiadau na dirwy na dim.

Ydi, mae'r dyfodol yn ansicr i'r Gymraeg. Cyn inni sylwi fe fydd y Llywodraeth wedi llyncu Bwrdd yr Iaith, a dyna pam mai nawr ydi'r amser i fynnu statws teg i'r iaith.

Yn syml iawn felly, mae'r baich a'r dyletswydd o fynnu dyfodol i'r iaith yn gorwedd yn drwm ar ein hysgwyddau ni. Byddwn felly, yn parhau i ymgyrchu'n ddiflino hyd nes bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymateb i'r alwad ac yn ysgwyddo cyfrifoldeb drwy arwain y ffordd a chreu deddf iaith newydd fydd yn rhoi'r hawl i bobl Cymru defnyddio'r Gymraeg ymhob agwedd ar fywyd.

Dyma'r cyfle

Steffan Cravos
Cadeirydd, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Cystadleuaeth Iolo Morganwg 2006

i ddysgyblion ysgolion cyfun yr ardal

Beirniad: Aneirin Karadog, prifardd yr Urdd 2006

Blwyddyn 7: Cerdd **"Yn fy mocs .."**

Blwyddyn 8/9: Cerdd **"Petaswn i'n filiwnydd"**

Blwyddyn 10/11: Cerdd **"Estyn llaw"**

Blwyddyn 12/13: Cerdd **"Wyneb"**

Agored: Pennill 4 llinell, unrhyw fesur, mewn cynghanedd, ac yn cynnwys y ddau air **"Nhw" a "Ni"**

Tasgau i law Rhys Dafis,
Hiraethog, 48 Parc y Coed,
Creigiau CF15 9LY (029 2089 1360)
erbyn Ionawr 24ain 2006.

MR PENSTRWMBWL A'R DDRAIG FACH

Wrth iddo godi o'i wely un bore. a syllu drwy ei delesgôp o frig y dderwen fawr, mae Mr Penstrwmbwl yn gweld fod rhywun mewn trafferth. Does dim amdani ond mynd i helpu.

A dyna ddechrau ar antur i fyd hud a lledrith yng nghwmni'r ddraig fach ddi-enw, Hyllwen y wrach a'i thylluan. Ond tybed all rhywun helpu'r ddraig fach i ddod o hyd i enw a rhoi gwên ar ei hwyneb unwaith eto?.

Mr Penstrwmbwl a'r Ddraig Fach
gan Julie Rainsbury
Gwasg Gomer £4.99

PANTO MEGA

HELA'R TWRCH TRWYTH

yn
Y Miwni, Pontypridd

10.00yb a 1.00 yp
19,20,23,24 a 25
Ionawr 2006

a 7.30 yh
ar 21 Ionawr 2006
Tocynnau:
01443 485934

NADOLIG Y PLANT



Silffoedd Santa



Ar draws
2. Rhywbeth pigog
3. Aderyn mewn gwasgod goch
4. Pen blwydd Iesu Grist

I lawr
1. Daeth hwn/hon â newyddion da
2. Bydd yn toddi yn yr haul
3. Roedd tri o'r rhain

Cysylltwch y smotiau a lliwiwch y llun.



Lliwiwch y llun:

Ble mae'r fins pei? Helpwch Siôn Corn i ddod o hyd iddi.



CHWILAIR Siôn Corn
Fedrwch chi ddod o hyd i'r geiriau hyn?
Cacen, gŵr doeth, Siôn Corn, twrci, corrach, seren, parti, carw, pwdin, Mair, Iesu, coeden, bugail, tylwyth teg.

W	S	C	A	C	E	N	L	P	O
S	I	O	N	C	O	R	N	A	B
E	E	R	D	A	G	C	H	R	U
R	S	R	M	R	W	I	S	T	G
E	U	A	W	W	R	I	N	I	A
N	O	CH	P	W	D	I	N	A	I
M	A	I	R	L	O	W	S	M	L
P	C	O	E	D	E	N	T	B	R
T	Y	L	W	Y	Th	T	E	G	U